# Y BIGWN

CYF. 30 RHIF 6 HYDREF 2018 *Papur Bro Dinbych* *Pris 50c*

# Gweithgareddau Haf Dinbych



Trip Ysgol Sul, Capel y Brwcws i Landudno




Sydna, John a Nerys yn Rhostio Mochyn Cymdeithas Y Bigwn




Bobi yn eistedd yn nghar Tom Pryce - Amgueddfa Dinbych



Te prynhawn yn Y Capel Mawr

**Mae angen i BOB DIM fod wedi cyrraedd bocs Y Bigwn erbyn Dydd Gwener, Hydref 19 - Ar Werth Tachwedd 3, 2018**

# Cymdeithas Y Bigwn

Daeth criw ffyddlon o gefnogwyr Y Bigwn i Glwb Rygbi Dinbych nos Wener 7fed o Fedi i fwynhau bwyd, diod, sgwrs a cwis Llifon y Cadeirydd! Uchafbwynt y noson i'r mwyafrif oedd cael bwyta'r mochyn a hwnnw wedi ei rostio'n berffaith, ac yn arbennig o flasus unwaith eto, gan Glyn y Cigydd. Roedd digon o fwyd i bawb gael ail gyfle i lenwi plât. DIOLCH YN FAWR IAWN i bawb am eu cymorth i sicrhau bod y noson yn un llwyddiannus. Gwnaethpwyd elw o £400, yn cynnwys cyfraniad hael gan J Williams Blas Da, tuag at Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Sir Ddinbych 2020.

*Nerys Davies*



: Criw yn mwynhau'r cwis??????



Glyn yn brysur



Swyn ac Alys Myfanwy gyda Sali yn y cefndir

**ISOD**

Llongyfarchiadau i Medwyn Jones a Nerys Davies ar dderbyn Tystysgrifau yn Wrecsam yn ddiweddar am roddi 75 peint o waed



## RHESTR Y SWYDDOGION

**CADEIRYDD**
**- Stan Lyall 813659**

**SWYDDOG HYSBYSEBION**
Sian Jones
01745 812214
russelljones9@talktalk.net

**GOLYGYDDION:**
Berwyn Roberts (812672)
John Davies (812239)
Erfyl Williams (814832)
Catrin Warren (814675)
Ceredig Gwynn (815701)
Ruth Williams (812822)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (815149)

**YSGRIFENNYDD**
Bedwyr Griffiths
Bryn Llys, 10 Llain y Capel
Dinbych LL16 3TU
01745 814497
ebost:
ed321@btinternet.com

**TRYSORYDD**
John Geraint Jones
18 Llys Marchell, Dinbych
LL16 4AR
01745 817485

**CARTWNYDD**
Huw Vaughan Jones

**DOSBARTHWYR**
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

**TEIPYDDION:**
Ffion Whitham (01824 704642)
Rhian Williams (816251)
Sian Rogers (813368)
Gwenan Ellis (813106)

**Ebost y Bigwn:**
ybigwn@hotmail.co.uk


Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

# Gair gan y Golygydd

Er fy mod wedi ymddeol ers blwyddyn neu ddwy bellach (a ddim yn blino dweud hynny chwaith!) mi ydw i'n dal i feddwl am fis Medi fel dechrau blwyddyn newydd. Dechreuad newydd a charfan newydd o blant yn cyrraedd yr ysgol. Roeddwn i, fel y disgyblion, yn gwneud yn siwr fod gen i offer newydd ar gyfer y flwyddyn ac yn mwynhau derbyn dyddiadur newydd Y Lolfa i gael nodi digwyddiadau ynddo ar gyfer y flwyddyn i ddod. Llechen lân a'r flwyddyn newydd yn ymestyn allan o'n blaenau er mwyn i ni gael gwneud ein marc arni hi!

Ac felly mae hi yn yr hen dref yma. Pan ddaw'r Bigwn allan mi fyddwn wedi cael mis o'r flwyddyn newydd yn barod ac mae hanes rhai o'r digwyddiadau a gafwyd yn mis Medi yma yn y rhifyn hwn. Byddaf yn rhyfeddu bob blwyddyn ar sut mae'r dref yn ail-gydio yn ei gweithgareddau yn Medi a bwrlwm y digwyddiadau yn dod â ni'r trigolion at ei gilydd unwaith eto.

Mae'r hen ffefrynnau wrth gwrs fel y capeli, Merched y Wawr, Meibion Caledfryn, y Gymdeithas Gymraeg, y clwb Gosod Blodau– mae'r rhestr yn ddi-ddiwedd – a thymor newydd y clybiau pêl-droed a rygbi yn ail-afael ynddi. Rhag i mi bechu yma, gwell dweud bod y criw criced wedi bod yn brysur dros yr haf a cheir adroddiad ar eu tymor yn y papur.

Yna fe gawn y digwyddiadau blynyddol sydd wedi hen sefydlu eu hunain ar y calendr bellach – penwythnos y Drysau Agored, yr Helfa Gelf, Gŵyl Gwrw Dinbych ac, fel y daw'r Bigwn hwn allan, yr Ŵyl Eirin.

Ac ar ben hyn i gyd mae'r dref, a gweddill y sir, yn brysur yn trefnu gweithgareddau i godi arian at Eisteddfod yr Urdd 2020. Rydym eisoes fel Cymdeithas y Bigwn wedi cael noson rhostio mochyn yn y Clwb Rygbi a chafwyd Arwethiant Addewidion llwyddiannus wrth i'r papur fynd i'w wely. Cadwch olwg ar galendr y Bigwn neu bosteri o gwmpas y dref am y digwyddiadau eraill sydd ar y gweill rhwng hyn a'r Nadolig.

Mae ffrindiau o du allan i'r fro yn rhyfeddu at ein brwdfrydedd (?) amynedd (?) dycnwch (?) yn gwahôdd eisteddfodau fel hyn a'r blynyddoedd o godi arian a ddaw yn sgîl hynny. Ond efallai mai dyna'r apêl gan fod y digwyddiadau a drefnir yn dod â ni at ein gilydd ac yn gyfle i gymdeithasu gyda chriwiau newydd, ac mi fentra i ddweud, iau!

Ond wrth orffen, mae gen i un apêl ychwanegol. Os ydych yn cynnal rhywbeth, neu os y gwyddoch am ryw achlysur, anfonwch bwt o'r hanes a, gwell fyth, lun i'r Bigwn. Peidiwch â bod yn swil, da chi. Mae angen lleisiau newydd, ifanc arnon ni.

Un oedd yn ifanc ei ysbryd ac a oedd yn gefnogwr brwd i gymdeithasau'r dref oedd Meurig Voyle. Bydd chwith ar ei ôl gan fod cawr o gymeriad fel Meurig yn sicr o adael bwlch mawr. Roedd y teyrngedau yn ei angladd yn y Capel Mawr yn gofiadwy iawn a braf gallu rhannu teyrnged Tegid Phillips iddo gyda chi'r darllenwyr. Ar ran golygyddion a swyddogion y Bigwn anfonwn ein cydymdeimlad at ei deulu.

Angharad Rhys

## BAG Y BIGWN

**Diolch yn fawr am eich cefnogaeth**

Di enw £20.00




MODURON Y GRAIG
Gorsaf Profion M.O.T.
(dosbarthiadau 3,4 a 7)
Atgyweirio ceir a thractorau
Iard y Graig, Ffordd y Graig,
Ffôn:01745 815606
550337 / 550512(cartref)

Guthrie Jones a Jones Cyfreithwyr
Osian Roberts LL.B , Nansi Thirsk LL.B,
Dylan Edwards B.A.,LL.B
29 Ffordd Rhuthun, Dinbych LL16 3EH
Ffôn: 01745 814 817 dinbych@guthriejj.co.uk
GWASANAETH CYFREITHIOL CYFLAWN YN Y GYMRAEG
yn y Swyddfa neu Gartref

# Cyfarchion



Penblwydd Hapus i Gwenno Lois Williams, Bryn Aled oedd yn 5 oed ar Awst y 10fed. Cariad Mawr a lot o swsus gan Dad a Mam, Gwion ag Aron, Nain a Taid Erw Wen a Nain a Taid Garnedd xxx



Penblwydd hapus i Seth ar ei benblwydd yn 2 oed gan taid a nain Dinbych,Anti Nia ac Yncl Sam

## PRIODAS

Priodwyd Gwenno (merch Erfyl a Carys Williams) a Tony Wood, 5 Lôn Derwen, Dinbych yng Nghapel y Fron ar Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 28ain. Roedd y gwasanaeth dan ofal y Parch Andras Iago. Eiri Jones oedd yr organydd gyda Meinir Llwyd ar y delyn.

Ifan oedd y gwas bach gyda chyfrifoldeb dros y modrwyau a Mari oedd un o'r morwynion bach.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da iddynt fel teulu.





# Y Capeli

## CAPEL BRWCWS

Pnawn Sul, Mehefin 24, cafwyd Oedfa'r Teulu dan ofal ein Gweinidog. Trefnwyd gan Carolyn Thomas gyda Eleanor Roberts wrth yr organ. Yn dilyn cawsom gymdeithasu dros baned a chacen. Diolch i Lis Edwards am ofalu am y baned ac i Heledd Iago am y cacennau.

Sul Gŵyl y Fro yn Neuadd y Pentref, Trefnant gynhaliwyd Gorffennaf 1af.

Agorwyd yr Ysgol Sul, Gorffennaf 8fed gan Elin Jones. Parch. Eric Greene oedd y cennad yn y prynhawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes. Anfonwyd ein dymuniadau gorau at nifer o'r selogion yn dilyn triniaethau ac ambell anffawd yn yr wythnosau diwethaf.

Bore Sul, Gorffennaf 15fed, Catrin Jones fu'n agor yr Ysgol Sul. Croesawyd y Parch. T L Williams atom yn y prynhawn. Bryan Roberts oedd wrth yr organ.

Gwilym Williams agorodd yr Ysgol Sul, Gorffennaf 22ain. Oedfa Gymun o dan ofal ein gweinidog y Parch. Andras Iago a gynhaliwyd y prynhawn. Eleanor Roberts oedd yr organyddes.

Gorffennaf 29ain Rhian, Cari a George Cattell fu'n gyfrifol am y rhannau dechreuol yn yr Ysgol Sul. Cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi yn y pnawn gyda Bleddyn, Gwilym a Rhianwen Williams yn cymryd rhan. Bryan Roberts oedd yr organydd.

Trip yr Ysgol Sul – Aeth plant yr Ysgol Sul a'u rhieni i Landudno ar eu trip blynyddol ddydd Sadwrn, Gorffennaf 21ain.

Llongyfarchiadau i Martha Llwyd Cordiner, Ystrad Bach ar dderbyn gradd BA mewn Cymraeg ac Astudiaethau Plentyndod o Brifysgol Bangor.

Ar y Sul cyntaf o Fedi, agorwyd yr Ysgol Sul gan Rhian, Cari a George Cattell. Y Parch. Alan Spencer oedd cennad y prynhawn. Carolyn Thomas oedd yr organyddes.

Gwilym Williams agorodd yr Ysgol Sul, Medi 9fed. Oedfa Gymun o dan ofal y Parch. Andras Iago a gawsom yn y prynhawn. Eleanor Roberts oedd wrth yr organ.

Catrin Jones a Cai a fu'n gyfrifol am y rhannau arweiniol yn yr Ysgol Sul ar y 16eg o Fedi. Croesawyd y Parch. Irfon Parry atom y prynhawn. Bryan Roberts oedd yr organydd.

## CAPEL Y FRON

Yr organyddes ar y Sul olaf ym Mehefin oedd Mrs Iona Edwards ac yr oedd oedfa'r bore dan ofal ein Gweinidog. Yr oedd y Sul cyntaf o fis Gorffennaf yn Sul Gŵyl y Fro yn Neuadd Trefnant ac yr oedd yr oedfa a'r gweithgareddau yn nwylo medrus Martyn Geraint ac i ddilyn yr oedd modd cymdeithasu gyda phicnic a chwaraeon i'r plant ar y cae gerllaw.

Nos Sul, Gorffennaf 8fed y Parch Eric Greene, Y Bala oedd gyda ni a Mrs Eiri Jones oedd yr organyddes. Bore Sul, Gorffennaf 15fed y Parch T. L. Williams, Pwllglas oedd y cennad ac fe wnaeth Mr. Richard Snelson ei gynorthwyo gyda'r darlleniadau a'r Sul yma Mrs Iona Edwards oedd yr organyddes. Ein Gweinidog y Parch Andras Iago oedd yn ein harwain mewn gwasanaeth nos Sul, Gorffennaf 22ain gyda Mrs Eiri Jones yn cyfeilio a'r Sul canlynol Gorffennaf 29ain y Parch Gerallt Lloyd Evans, Bodorgan, oedd yn pregethu a Mrs Iona Edwards oedd yn cyfeilio. Yr ydym fel aelodau'r Fron yn dymuno pob bendith i Mrs Anwen Williams yn ei chartref newydd.

Y mae gwasanaethau mis Awst yn rhai undebol. Yr oedd Mr Dilwyn Jones yn pregethu yn y Capel Mawr, Awst 5ed. Yr oedd gwasanaeth yn Lôn Swan ar y 12fed wedi ei baratoi gan Mr. Huw Jones a Mrs Anwen Roberts ac ar yr 19eg yn y Fron cawsom gwmni'r Parch John Lewis Jones, Bae Colwyn. Yna, ar y Sul olaf o Awst yr oeddem yn cydaddoli yng Nghapel Pendref gyda'r Parch Gwilym O. Jones, Croesoswallt.

Dydd Sul, Medi 2il yr oedd gwasanaeth yr hwyr dan ofal y Parch Alan Spencer, Bae Colwyn a Mrs Eiri Jones oedd yr organyddes. Bore Sul, Medi 9fed yr oedd y Cymun Sanctaidd yn cael ei weinyddu gan ein Gweinidog, y Parch Andras Iago gyda Mrs Iona Edwards yn cyfeilio. Yr oedd yr oedfa i gloi'r wythnos am Undeb yn yr Eglwys Santes Fair ar y nos Sul y 9fed o Fedi ac yr oedd y Parch Nesta Davies wedi gofalu am yr holl gyfarfodydd. Y Parch Irfon Parry oedd y cennad nos Sul, Medi 16eg a'r organyddes oedd Mrs Eiri Jones.

## Y CAPEL MAWR A SEION

Gyd a thristwch mawr y clywodd yr aelodau am farwolaeth Mr Meurig Voyle - yr hynafgwr hynod ond ifanc ei ysbryd – ar y trydydd o Fedi. Bu'n aelod blaenllaw yn yr eglwys yn dilyn ymgartrefu yn y dref dros hanner can mlynedd yn ôl.

Yn ogystal â bod yn flaenor, bu'n ysgrifennydd y cyhoeddiadau ac yn athro Ysgol Sul yn yr eglwys.

Roedd hefyd wedi trwytho'i hun yn nhrefniadau a rheolau Eglwys Bresbyteraidd Cymru, ac roedd yn Fethodist Calfinaidd rhonc. Bu'n aelod blaenllaw yn y gymuned hefyd, a mawr fydd y bwlch yn Nyffryn Clwyd ar ei ôl. Cynhaliwyd ei angladd ar brynhawn Gwener, Medi 14eg yn Y Capel Mawr dan arweiniad y Parch. Andras Iago, y gweinidog. Yr organyddes oedd Mrs Dorothy Rogers.

Bu'r traddodiant y diwrnod canlynol ym mynwent Eglwys Sant Twrog, Llanddarog, Sir Gaerfyrddin.

Cydymdeimlwyd â'r teulu - Sharon, Rhian a Huw a'u teuluoedd - yn yr oedfa foreol ar Fedi 16eg pryd y talwyd teyrnged iddo gan Mrs Angharad Rhys. Hyhi a Mrs Cheryl Williams a arweiniodd y gynulleidfa ar fyr rybudd mewn oedfa hynod o drawiadol. Mrs Catrin Warren oedd wrth yr organ. Ar y Sul cyntaf o Fedi cyflwynwyd gwasanaeth cenhadol gan y blaenoriaid gyda Mrs Dorothy Rogers wrth yr organ a Mr Ifor John Jones yn arwain y gân. Lluniwyd y gwasanaeth gan y Parch. Christopher Prew, un o feibion Y Fron. Mr Dilwyn Jones oedd y pregethwr ar y Sul cyntaf o Awst gyda Mrs Dorothy Rogers wrth yr organ.

**DYDDIADUR**

Cymorth Cristnogol

Noson Pwdin a Phaned yn Eglwys St Thomas nos Fercher y 24ain o Hydref am 7 o'r gloch - £5. Bydd yr elw yn mynd tuag at apêl Diolchgarwch

## Aelwyd Capel Mawr

Cafwyd cyfarfod ar y 18fed o fis Medi. Dechreuwyd gan Helena Williams y llywydd a chawsom weddi addas iawn at ddechrau'r tymor ganddi.

Roedd gennym ddau ŵr gwadd, sef Clwyd Wynne a Dafydd Jones. Roeddent wedi dod i siarad am yr hen Ysbyty Meddwl, sef Ysbyty Gogledd Cymru. Cawsom hanes codi'r Ysbyty agorwyd ym 1848. Cafodd llawer ohonom agoriad llygad yn ystod y pnawn. Roedd yn llawer mwy nag adeilad, yn fwy fel pentref hunangynhaliol. Cafodd gymaint o bobl Dinbych waith yno gyda phob math o swyddi ar eu cyfer. Hefyd roedd y cleifion yn gweithio yn y gwahanol feysydd fel rhan o'u triniaeth. Roedd pob math o adloniant ar eu cyfer, yn gyngherddau, dawnsfeydd dramâu a phethau eraill. Roedd y dull o drin cleifion wedi newid llawer a dyddiau eu cuddio o'r golwg wedi mynd, a'r driniaeth yn llawer mwy tirion. Caewyd yr Ysbyty ym 1995, colled fawr i'r ardal. Mae'n drist gweld yr adeilad hardd hwn, a'r neuadd fawr anhygoel, wedi ei ddifrodi. Diolchwyd i'r ddau gan Mair ac i Carys Jones a Dorothy Bartley am baratoi paned. Diolch hefyd i Gwilym Luke Jones am osod y "power point" yn barod.

Mae rhai o'n haelodau ddim yn dda ar hyn o bryd a buom yn meddwl amdanynt a dymuno'r gorau iddynt.

# Te Prynhawn MaryDei:

Festri Capel Mawr: 1.9.2018

Ychydig o wythnosau ar ôl Te Prynhawn MaryDei, yn Festri Capel Mawr, mae'r ddwy ohonom yn dal i gael pobl yn dweud wrthym, gymaint wnaethon nhw fwynhau'r Te Prynhawn.

Mi wnaethom lwyddo i gael dros 50 o westeion a 14 o wirfoddolwyr yn gweini arnynt. Dipyn o gamp yw hi y dyddiau yma i sicrhau llond festri o westeion ond gyda dipyn o gnocio drysau, posteri drwy'r dre a hybu'r digwyddiad ar y cyfryngau cymdeithasol, roeddem yn hynod falch o weld cymaint o griw.

Fel y gwelwch o'r lluniau, roedd tîm MaryDei wedi addurno y Festri yn ôl eu steil arferol, llieiniau bwrdd, llestri tseina a llwythi o hetiau wedi eu dosbarthu ar y pegiau. Wrth i'n gwesteion gerdded i mewn, y peth cyntaf oedd yn eu taro oedd pa mor hardd oedd y festri a'r ail beth oedd yr hetiau! Difyr yw gweld ymateb pobl i'r holl syniad o wisgo bach o 'ffansi dres', rhai yn rhy swil i fentro, eraill fel Nesta yn mwynhau pob munud o'r broses ac yn penderfynu yn y diwedd ar wig piws a oedd yn ei siwtio i'r dim! Mi wnaethom yn arbennig fwynhau'r hwyl a gafodd Ifor John yn mynnu fod Dr Chris Madoc-Jones yn gwisgo wig 'teddy-boy' a fynte yn barod i fynd gyda'r hwyl. Wrth gofio ein blynyddoedd yn Siop Vintage MaryDei, mae'n wych i ni weld, gymaint mae bach o wisgo 'i fyny' yn creu hwyl a chwerthin. Profiad sydd ei angen mewn cyfnod lle mae nifer helaeth o bobl yn ein cymuned yn wynebu amrywiol anawsterau.

Un o prif sialensau ein hoes yw unigrwydd gydag Adroddiad Ystadegau 2016/17 a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru, yn dweud for 17% o bobl Cymru a holwyd yn disgrifio eu hunain yn unig a gymaint a 54% yn profi peth teimladau o unigrwydd. Efallai yn annisgwyl, roedd yr ystadegau yn cynnig fod pobl ifanc 16 – 24 (20%)yn fwy tebygol o fod yn unig nac oedolion dros 75 (10%).1

Yn sicr roedd gweld cymaint o'n gwesteion yn sgwrsio a chwerthin ac yn cyfarfod hen ffrindia a chyfarfod a rhai newydd yn rhoi modd i fyw i ni fel tîm.

Un o brif amcanion y prynhawn oedd sicrhau fod pob gwestai yn gadael gyda gwybodaeth am wasanaethau lleol i bobl a theuluoedd sydd yn byw gyda Dementia. Er fod na dipyn mwy o sgwrsio agored am y cyflwr ers i ni fel chwiorydd ofalu am ein mam, Mary, a oedd yn byw gyda Dementia, ein profiad ni yw fod yna 'stigma' yn parhau o hyd am y cyflwr. Roeddem yn ymwybodol fod yna nifer o'n gwesteion gyda profiad o ddelio gyda'r cyflwr. Ein gobaith yw drwy sgwrsio yn agored am y cyflwr, a darparu gwybodaeth, y byddant yn teimlo yn fwy hyderus i estyn allan i deuluoedd, sydd yn delio gyda Dementia yn ddyddiol.

Roeddem yn ddiolchgar iawn i'r Maer, Cathy Jones am gefnogi y Te Prynhawn a rhannu o'i phrofiad personol o ddelio gyda'r afiechyd yn ei theulu.

Creu digwyddiadau hwyliog cymunedol yw un o'n amcanion ni fel MaryDei ond gyda phwrpas difrifol hefyd, sef i godi ymwybyddiaeth o anghenion teuluoedd sydd yn gofalu yn ein cymuned. Mi fydd y swm a godwyd o £450 yn mynd tuag at ein gwaith o gefnogi ac eirioli dros ofalwyr teulu.

Os oes unrhyw un o ddarllenwyr y Bigwn isio copi o'r wybodaeth a rannwyd yn ystod y prynhawn neu isio cyngor ynglyn â gofalu, mae croeso i chi e bostio mair@marydei.com neu ffonio 07511429566.

Diolch i'n gwesteion i gyd am ddod ac i bob aelod o'r tîm am wneud y prynhawn yn bosib ac yn un i'w gofio.

Wrth weld lluniau o hen weinidogion Methodistiaid y Capel Mawr uwchben yr hetiau a'r scarffiau ar y pegiau, mae'n naturiol meddwl 'Be fuasen nhw yn ei feddwl?' Ein gobaith yw y byddent yn cefnogi ein penderfyniad fel Mudiad, i estyn allan i'n cymuned, i ddod â phobl at ei gilydd ac i estyn gofal i'r rhai hynny sydd yn gofalu, yn aml yn ddistaw a heb gefnogaeth.

1. Archwiliad Cenedlaethol i Gymru 2016 – 17 (Llywodraeth Cymru) 13.2.2018

Nerys Ann Roberts

Mair Jones



Rhai a fu'n gweini yn y Te

# Y Cymdeithasau

## Cymdeithas Gosod Blodau Dinbych

**Gorffennaf 3ydd**

Croesawodd Doris bawb i'r cyfarfod i weld ac edmygu Ruth Rees o'r Waen yn dangos ei dawn. Ei thema oedd 'Taro Cydbwysedd' mewn lliw, pell ac agos, pwysau, syniadau a gosodiadau trawiadol a phawb wedi mwynhau. Talwyd y diolchiadau gan Gwyneth Parry.

**Medi 4ydd**

Croesawyd pawb i'r noson gan Doris Roberts a chanmolodd yr aelodau oedd wedi cefnogi'r sioeau lleol drwy fynd ati i gystadlu. Ein arddangoswraig oedd Tina Pound a'i thema oedd 'Llythyrau Caru oddiwrth Elvis'. Gwnaeth y gosodiad cyntaf mewn powlen wydr gyda llythrennau y tu mewn iddi ac ar ei phen rhoed rhosod gwynion, gerberas a charnasiwns gwyn gyda deiliach gwyrddion.

Yr ail un oedd 'Heart Breaker', calon wedi rhannu'n ddwy gyda charnasiwns cochion, rhosod cochion a deiliach, a rhyngddynt rhoddoddy record 'One Broken Heart'.

Y trydydd gosodiad oedd 'True Love Travels on the Gravel Road'. Recordiwyd y gân yma ym Memphis. Defnyddiwyd oasis du i gynrychioli lliw ffordd oedd yn syth ac o gynllun cyfandirol, rhosod gwynion, lessaithus a phennau latics brown ynghyd â deiliach browndду.

Y pedwerydd oedd gosodiad a luniwyd i gyfleu cân a recordiwyd flynyddoedd yn ôl - 'Please do not drag this string around'. Defnyddiwyd blwch hirsgwar gyda llinyn o'i gwmpas a rhosod cochion a deiliach a rheini i gyd yn gogwyddo i'r un cyfeiriad hefo euthermius mawr coch a llinyn y tu ôl iddo.

Seiliwyd y nesaf ar gân o'r 70au, 'Kentucky Rain'. Gosodiad mewn powlen wydr gyda gleiniau gwynion yn dangos y dafnau glaw, ac ar ei phen - delffiniwm glas, 'sbrigau bedw, deiliach llwyd, rhosod bach gwynion a blodau bach glas. Hyfryd iawn.

Ysbrydoliaeth y gosodiad olaf oedd y gân 'Can't Help Falling in Love' gyda 'sbrigau cochion wedi eu gosod i wyro i'r un cyfeiriad a rhosyn coch hefo coesyn hir, antirhiniwms, gerberas a gweiriach – y cwbl yn plethu i greu gosodiad a hanner. Gwnaed y diolchiadau gan Diana Williams.

Margherita Jones

## MERCHED Y WAWR RHANBARTH GLYN MAELOR

**TYMOR NEWYDD/AELODAU NEWYDD**: Bydd holl ganghennau'r Rhanbarth yn ail-gydio yn eu gweithgareddau y mis hwn (Medi). Mae croeso i aelodau newydd ymhob cangen. Dewch atom I fwynhau gweithgareddau Cymraeg o fewn eich cymuned. Fel y dywedodd Tegwen Morris, ein Cyfarwyddwr Cenedlaethol, "… mae perthyn I gangen neu glwb fel cael teulu estynedig. Mae cyfeillgarwch yn yr oes sydd ohoni mor bwysig ac mae cael cyfle oedd i gyd-fwynhau yn bwysig iawn… mae Cymuned, Cyfeillgarwch a Chymreictod yn bwysig iawn i Ferched y Wawr."

Mae cangen Dinbych yn cyfarfod ar nos Fercher cyntaf y mis am 7.30yh yn Festri Capel y Fron. £16 yw'r tâl aelodaeth (o Fedi i Fedi) – yn cynnwys 4 rhifyn o'r Wawr,sef cylchgrawn y mudiad. Gallwch ymaelodi unrhyw fis. O fod yn aelod, gallwch hefyd fynd i weithgareddau rhanbarthol a chenedlaethol a bod yn rhan o brosiectau cyfredol. Dewch atom!

**PWYLLGOR RHANBARTHOL NESAF**: Bydd yn cael ei gynnal yng Ngholeg Cambria, Llysfasi am 7yh nos Lun, 8 Hydref, 2018. Aelodaeth y Pwyllgor yw holl swyddogion canghennau'r Rhanbarth.

**CWIS HWYL CENEDLAETHOL:** Y Cwis yw ein gweithgaredd rhanbarthol nesaf, fe'l cynhelir yn ôl yr arfer yn y Clwb Golff yn Ninbych, ar nos Wener, 9 Tachwedd.

## CYMDEITHAS CALEDFRYN

Ar ddechrau'r cyfarfod cyntaf y tymor newydd fe wnaeth y Llywydd, Richard Snelson estyn cydymdeimlad dwys â theulu y diweddar Meurig Voyle, Llywydd Anrhydeddus Cymdeithas Caledfryn. Bu Meurig yn aelod o'r gymdeithas o'r cychwyn cyntaf ac yn gymeriad hollol unigryw, egwyddorol, ffyddlon, gweithgar a ffraeth dros ben. Roedd yn meddwl y byd o'r Gymdeithas ac wythnosau yn unig cyn ei farwolaeth roedd yn dymuno'r gorau i'r aelodau a'r swyddogion ar gyfer y tymor newydd. Roedd yn fraint ei adnabod a'n teyrnged gorau fydd sicrhau bod Cymdeithas Caledfryn yn parhau i'r dyfodol.


Croesawyd Dafydd Meirion, Yr Wyddgrug atom a chawsom awr ddifyr dros ben yn gwrando ar hanesion ei fagwraeth yn ninas


MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Tegannau plant - a llawer rhagor

CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones



CAPEL Y FRON
CYNGERDD
gan
CÔR Y PORTHMYN
Nos Sul, Tachwedd 4ydd.
am 7.30yh
Mynediad: £5 i oedolion
Elw tuag at yr adeiladau
Tocynnau ar gael gan aelodau
Pwyllgor yr Adeiladau
neu yn Siop Clwyd
Maes parcio wrth Ysgol Twm o'r Nant ar agor



Richard Snelson a Dafydd Meirion

Lerpwl.Roedd ei dad yn Sarjant yn Lerpwl ac yn enedigol o Ffestiniog a'i fam, sef chwaer R Bryn Williams o Trelew, Patagonia.
Cafodd Dafydd ei fagu yn Meldrum Rd,Lerpwl er iddo gael ei eni yn Aberystwyth yng nghyfnod yr Ail Ryfel Byd.Ar ddiwedd y rhyfel symudodd ei fam a'r plant yn ôl i Lerpwl ac aeth i Ysgol Mosspits ar Woolton Rd.Arferai Dafydd a'i ffrindiau chwarae ar eu beics ar y 'bombis' sef yr ardaloedd o'r ddinas a ddinistriwyd yn ystod y Blitz.
Dywedodd bod Lerpwl yn y 1950au a'r 1960au yn llawn bwrlwm Cymreig-yn gapeli,cymdeithasau,aelwydydd a dawnsfeydd.Roedd capel y teulu sef Heathfield Rd gyda chwe chant o aelodau tra bod capeli fel Princess Rd gyda dros fil o aelodau.
Roedd yn ysgol Quarrybank yn 1955 ac yn gyd-ddisgybl iddo yn ei ddosbarth oedd John Lennon ac roedd yn arfer mynd draw i'w gartref gan gyfarfod yr enwog Anti Mim.Ei filltir sgwâr yn Lerpwl oedd Penny Lane a Strawberry Fields sydd hyd heddiw yn enwog oherwydd caneuon y Beatles.
Ar ddiwedd y cyfarfod cafodd yr aelodau siawns i ofyn cwestiynau i Dafydd a mawr oedd y diolch iddo ar y diwedd am gyflwyniad mor ddiddorol.
Mi fydd y cyfarfod nesaf ym Melin Brwcws ar nos Wener Hydref 26ain am 7 o'r gloch ar gwestai fydd Chris Baglin,Treffynnon - Y Consuriwr Fictorianaidd.Noson hwyliog llawn swyn a thriciau.Croeso i aelodau newydd.

**Hydref 26ain 2018**
**Chris BaglinTreffynnon**
**'Consuriwr Fictorianaidd'**

**Tachwedd30ain 2018**
**Ifor John Jones**
**Byw a Gweithio yn**
**Papwa Gini Newydd**

**Ionawr 25ain 2019**
**Noson gyda'r Dysgwyr**
**yng Ngwesty'r Gild**
**Dathlu Santes Dwynwen**
**a Noson Burns**
**Haggis a Bwffe Cymreig**

**Chwefror 22ain 2019**
**David Mawdsley**
**'Llongau,y Môr a'r**
**Gyfraith**

**'Mawrth 29ain 2019**
**Cinio Blynyddol**
**Robat Arwyn**
**'Y stori tu ôl i'rgân'**

**Ebrill 27ain 2019**
**Dydd Sadwrn**
**Taith i'r Ysgwrn**

## Cymdeithas Caledfryn - Clwb y Gateway


Yn gynharach eleni cafwyd achlysur a pharti difyr iawn yn Eirianfa i ddathlu penblwydd Y Gateway yn Ninbych yn 40oed, ac ar yr adeg, fe nodais mewn pwt i'r Bigwn gysylltiad Cymdeithas Caledfryn (Meibion Glyndwr gynt!) â'r Clwb o'r cychwyn.
Roedd pedwar aelod o'r Gateway yn dod o Lannefydd, Cefn Berain a Henllan, ac nid hawdd oedd i'r aelodau hyn gyrraedd Eirianfa ar nos Wener.
Trefnwyd rota gwirfoddolwyr ( Caledfryn/ Glyndwr ) i gludo'r aelodau i'r clwb ac wrth gwrs eu danfon gartre ar ddiwedd y noson. Bellach dim ond dau, sef Eleri a'i brawd Eirwyn Davies o Lannefydd sy'n dal yn aelodau o'r clwb ond mae'r rota o wirfoddolwyr yn parhau gyda dros ugain ar y rhestr.Gan fod dros hanner cant o gyfarfodydd mewn blwyddyn fe olyga fod pob gwirfoddolwr yn cludo ryw ddwywaith y flwyddyn.
Fel trefnydd y rota ers rhai blynyddoedd (yn dilyn y diweddar John Roberts ) mae'n rhaid i mi unwaith eto ddiolch o galon i'r cymwynaswyr (nifer ohonynt bellach yn anffodus ddim yn aelodau o Gymdeithas Caledfryn ond yn parhau i roi eu gwasanaeth.) am fod mor barod i gydweithio i sicrhau fod Eleri ac Eirwyn yn cyrraedd yn ddiogel .
Mae'n siwr fod gweld mwynhad y ddau yn y Clwb dan arweiniad John Williams a'i dîm ac hefyd y modd diffuant mae'r ddau yn eu ffordd eu hunain yn mynegi eu gwerthfawrogiad yn ddigon o dâl yn ei hunan. Diolch yn fawr i chi gyd a hir oes i'r Clwb ac wrth gwrs i Gymdeithas Caledfryn.
Alun H Jones.
O.N Mae tymor newydd Cymdeithas Caledfryn eisoes wedi cychwyn , y cyfarfodydd unwaith y mis ar y nos Wener olaf am 7.15 ym Melin Brwcws. Rhaglen ddiddorol a croeso i aelodau newydd ! - am fanylion ffoniwch Jac Roberts ar 01745814950



# Tudalen y Plant

Y BIGWN

www.meithrin.cymru/daugibach



mudiad meithrin



## Lois Griffiths



Mae Lois Griffiths o Grud y Castell, Dinbych wedi ymuno â Guthrie Jones a Jones yn Nghorffennaf 2018 fel Cyfreithwraig dan hyfforddiant yn dilyn cyfnod o waith fel paragyfreithwraig â chwmni arall yn Ngogledd Cymru.

Mae Lois yn ferch leol a fe gafodd ei haddysg gynradd yn Ysgol Twm o'r Nant cyn mynd ymlaen i Ysgol Glan Clwyd, lle y bu yn ddisgybl tan y chweched dosbarth.

Yn dilyn ei chyfnod yn yr ysgol aeth Lois ymlaen i astudio gradd LLB yn Y Gyfraith ym Mhrifysgol Aberystwyth. Fe raddiodd yng Ngorffennaf 2016 cyn mynd ymlaen i astudio cwrs ymarfer y gyfraith ynghyd â Gradd Meistr LLM mewn Ymarfer Cyfreithiol Proffesiynol ym Mhrifysgol y Gyfraith, Christleton, Caer gan gwblhau'r cwrs yng Ngorffennaf 2017.

Mae Lois yn falch iawn o'r cyfle i gael ymuno gyda chwmni Cyfreithiol yn Ninbych ac yn edrych ymlaen yn fawr i ddarparu cyngor i drigolion y dref a thu hwnt."

## Graddio

Llongyfarchiadau mawr i ti
MARTHA LLWYD CORDINER
Ystrad Bach
ar dderbyn Gradd BA mewn Cymraeg ac Astudiaethau Plentyndod o Brifysgol Bangor. Pob dymuniad da at y dyfodol oddi wrth Dad, Mam, Morgan a'r teulu i gyd.




**Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru**

DBP
Home Improvements N.Wales

**Tŷ DBP**
**Stad Ddiwydiannol Colomendy**
**Dinbych.**
**Ffôn: Mike Hargraves ar 01745 815555**
**Symudol: 07778752822**

**Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.**




**Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.**

**Ffenestri U-PVC, Unedau wedi'u selio, Drysau, Ystafelloedd Gwydr, Portshys, Cynnyrch Roofline, Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.**

# *Dwyn i Gof* gan **Meic Povey**

*Mae Huw a Bet yn briod ers 40 mlynedd a Gareth, eu unig fab, ar fin priodi Cerys. Mae trefniadau i'w cadarnhau. Mae Huw'n benderfynol o chwarae ei ran ond gyda'i gof yn araf ddadfeilio mae perygl i gyfrinachau hen a newydd gael eu datgelu. Ond pa mor fregus yw Huw mewn gwirionedd? Sut mae Bet yn ymdopi â'r sefyllfa? Oes rheswm gan Gareth i boeni am bechodau'r tadau, ac a yw Cerys yn gweld y tad yn y mab?*

Mae ***Dwyn i Gof*** yn ddrama ddifyr a phryfoclyd sy'n cyfuno'r dwys a'r digrif wrth sôn am bwnc cyfredol, sydd 'ar feddwl' pawb y dyddiau hyn.

Yng ngeiriau dihafal Meic ei hun, *"Y rheswm esh i ati i sgwennu am y pwnc penodol yma ydi hyn: O'r holl bethau all ein lladd - ac fel dywedodd yr Americanwr adnabyddus, (sic) Anthony Hopkins unwaith, 'nobody gets out of this alive' - yn bersonol, colli dy gof ydi'r cyflwr sy'n codi mwya' o ofn arna'i."*

Meddai Betsan Llwyd, Cyfarwyddwr Artistig Bara Caws, *"'Roedd Meic wedi gyrru'r ddrama atom llynedd, ac 'ro'n i wrthi'n dechrau rhyw gyfathrebu ynglŷn â hi pan gafodd ei daro'n ddifrifol wael. 'Roedd wedi dweud ei hun bod angen rhagor o waith arni, felly 'ro'n i mewn cyfyng-gyngor. Yna deuddydd wedi iddo farw cefais gerdyn ganddo, drwy law Catrin ei ferch, yn ei ffordd unigryw ei hun yn fy herio i ymgymryd â'r dasg asap! - a fel ddeudodd Catrin, 'Pwy yda ni i ignorio hynny?' Felly dyma ni! Fyddai'n colli'r cyfle i drafod, i ddadlau ac i herio, ond bydd hi - fel bob tro - yn fraint."*

'Rydym wrth ein bodd fod y cast canlynol wedi derbyn yr her - mae pob un o aelodau'r cast yn wynebau cyfarwydd iawn ar lwyfannau ac ar y sgrîn:

<u>Sara Gregory</u> - Actores Orau Gwobrau Theatr Cymru 2015 - *Contractions (Iain Goosey/ Chapter); Woman of Flowers (Pena); Home, I'm Darling (National Theatre/ Theatr Clwyd);* Actores Orau BAFTA Cymru 2013 - *Alys (Apollo/S4C);Byw Celwydd (Tarian/S4C); Y Gwyll/Hinterland (Fiction Factory/BBC/S4C)*

<u>Gwenno Elis Hodgkins</u> - Enwebwyd Actores Orau Gwobrau Theatr Cymru 2015 - *Drych (Frân Wen); Yn Debyg Iawn i Ti a Fi (Bara Caws a Theatr Genedlaethol Cymru); Ŵy Chips a Nain (Frân Wen); Sombreros (Cwmni Da/ S4C); Tipyn o Stâd (Cwmni Da/S4C); Y Mynydd Grug (Llun y Felin/S4C)*

<u>Rhodri Meilir</u> - Actor Gorau Gwobrau Theatr Manceinion 2018 *How My Light is Spent, (Manchester Royal Exchange); Mametz (NTW); Lysh (Bara Caws); Byw Celwydd (Tarian/ S4C); Dan y Wenallt/Under Milk Wood (fFati fFilms); Craith/Hidden (S4C/BBC/ Severn Films)*

<u>Llion Williams</u> - Actor Gorau Cymraeg Gwobrau Theatr Cymru 2016 - *Chwalfa (Theatr Genedlaethol Cymru);* Actor Gorau Saesneg Gwobrau Theatr Cymru 2016 - *Belonging (Re-Live); Difa a Llanast! (Bara Caws); Lan a Lawr (S4C); Y Gwyll/Hinterland (Fiction Factory/S4C/BBC); C'Mon Middfild (Nant/S4C)*

***Theatr Twm o'r Nant 13-10-2018***



# YSGOL GLAN CLWYD



**Llongyfarchiadau** i'n holl ddisgyblion bl 11, 12 a 13 a fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau TGAU, AS a lefel A. Pob lwc iddynt yn y dyfodol.
Mae'r Ysgol yn falch iawn o lwyddiant ein disgyblion yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Sioe Frenhinol a gweithgareddau Theatr yn y Gymuned dros yr Haf.
Mae'r ysgol yn gweithio yn agos iawn gyda Chlwb Rygbi Dinbych ac yn hysbysu'r sesiynau ymarfer fel a ganlyn:
Sesiynau dan 13 oed - Cae ymarfer @Clwb Rygbi Dinbych 18:00 - 19:30 pob dydd Mercher
Sesiynau dan 14 oed - Cae ymarfer @Clwb Rygbi Dinbych 18:00 - 19:30 pob dydd Iau
Am fwy o fanylion a gwybodaeth gallwch ddilyn Clwb Rygbi Dinbych ar;
*Twitter* - CRDinbych a CRDinbych6_16
*Instagram* - crdinbych
*Facebook* - Clwb Rygbi Dinbych

**TAITH NORMANDI 2018**

Ym mis Gorffennaf aeth 44 o ddisgyblion Bl 8 ar daith gyda'r Adran ITM i Normandi. Yn ystod eu hymweliad, ymwelodd y disgyblion â Mémorial de Caen, Arromanches, le Musée de la Tapisserie de Bayeux, Honfleur, Festyland ac fe gawsant wers coginio crêpe hefyd! Roedd yr ymddygiad yn wych a phawb wedi manteisio ar bob cyfle i ymarfer eu Ffrangeg!

**Cystadleuaeth Airbus**

Cafwyd gwasanaeth arbennig yn Ysgol Glan Clwyd i ddathlu llwyddiant disgybl o flwyddyn 8 mewn cystadleuaeth ryngwladol Airbus. Allan o dros 900 o gystadleuwyr ar draws y byd daeth Max Bentley yn gyntaf o'r rhain i gyd gan ennill argraffydd 3D ar gyfer yr ysgol.
Dywed Max Bentley "Mae wedi bod yn brofiad anhygoel! Rwyf yn hynod o falch fy mod wedi ennill y gystadleuaeth. Dw i'n gobeithio dilyn llwybr astudio pynciau STEM ac yn edrych ymlaen at y dyfodol. Diolch yn fawr iawn i Airbus am y cyfle"
Dywedodd Ann Jones AM "Roedd hi'n fraint cael ymuno â Max a Blwyddyn 8 i gydnabod ei wobr ryngwladol gydag Airbus i ddylunio roced a helpu i wella'r rhaglen ofod. Daeth Max yn gyntaf allan o dros 900 o geisiadau ar draws y byd, mae'n glod iddo ef a'i deulu ond hefyd i'r ysgol"
Yn ôl Emily Merrison – Pennaeth Cyswllt Addysg y Deyrnas Unedig, Airbus "Ar ran Airbus, hoffwn i longyfarch Max ar ei lwyddiant rhagorol. Mae Airbus yn ymroi at gysylltu gyda disgyblion ac ysgolion i annog y math hwn o greadigrwydd a meddwl gwyddonol. Rwyf yn annog Max i barhau i ddatblygu ei sgiliau mewn Gwyddoniaeth a Thechnoleg gan obeithio ei weld eto fel peiriannydd yn Airbus un diwrnod yn y dyfodol'
Mynegodd y Pennaeth, Bethan Cartwright "Rydym fel ysgol yn hynod o falch o lwyddiant Max ac yn ddiolchgar iawn iddo ef ac i Airbus am y wobr. Diolchwn hefyd i Ann Jones AC, am ei chefnogaeth i'r digwyddiad ac i'r ysgol".



"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"



Ymunodd Ann Jones AC ,Emily Merrison (Pennaeth Cyswllt Addysg Airbus yn y Deyrnas Unedig) â theulu Max gyda ni i ddathlu ei lwyddiant.




Max gyda llun o'r roced

**Gweithgareddau 5 X 60 o fewn Ysgol Glan Clwyd.** Mae Mr Aled Williams ein cydlynydd 5x60 yn yr ysgol yn cynnig y gweithgareddau isod i'n disgyblion. Os oes diddordeb gan eich plentyn i wneud unrhyw weithgaredd, cysyllter gyda Mr Williams

LLUN: Amser Cinio - Pêl-droed (Bl.7), Pêl-rwyd (Bl.8a9), Tenis Bwrdd (pawb)

Ar ôl ysgol (3:30 - 5:00yp) - Cynghrair Pêl-droed - agored i bawb, trowch fyny mewn tîm neu yn unigol!

MAWRTH: Amser Cinio - Pêl-droed (Bl.8a9), Hoci (Bl.8,9,10,11), Rygbi (Bl.10), Pêl-rwyd (Bl.7) Tenis Bwrdd (Bl.7)

Ar ôl Ysgol - Medi a Hydref - Clwb Footgolf, Tachwedd a Rhagfyr - Clwb Sgïo

MERCHER: Amser Cinio - Pêl-droed (Bl.10a11), Hoci (Bl.7), Rygbi (Bl.9) Pêl-droed Merched (Bl.9a10), Sesiwn HIIT/ffitrwydd.

Ar ôl ysgol (3:30 - 5:00yp) - Badminton a Thenis Bwrdd - (Dyma gyfle i fod yn rhan o dîm yr ysgol mewn twrnamaint)

IAU: Amser Cinio - Pêl-droed Merched (Bl.7a8), Rygbi (Bl.8) Pêl-rwyd (Bl.10a11), Clwb Dawns (agored)

Dim clwb ar ôl ysgol

GWENER: Amser cinio - Clwb Golff (Trefnant), Badminton (agored) Pêl-droed Merched, Pêl-droed (tîm y 6ed).

Ar ôl ysgol - Clwb Chwaraeon Dwr (Porth Eirias)

## RHYBUDD GDPR

Oherwydd rheolau newydd ynglŷn â phreifatrwydd data personol, rydym yn gwneud rhai newidiadau i'r ffordd mae **Y Bigwn** yn casglu gwybodaeth a newyddion a'u cadw.

i ohebwyr, cyfranwyr, clybiau, grwpiau ac ysgolion ddatgan eu bod..... wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwr pob plentyn dan 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth anfon pob adroddiad i'r **Bigwn** wedi sicrhau caniatâd bob unigolyn dros 13 i gynnwys gwybodaeth amdanynt neu luniau ohonynt wrth ddanfon pob adroddiad i'r **Bigwn.**

Ni dderbynnir unrhyw newyddion personol/lluniau am blentyn ond oddi wrth riant neu ofalwr y plentyn hwnnw.

Felly wrth ddanfon eich newyddion neu luniau i'r **Bigwn**, cofiwch eich bod wedi gwneud yr uchod a chynnwys y datganiad canlynol gyda'ch newyddion a'ch lluniau:

Rydym yn datgan ein bod wedi sicrhau caniatâd rhiant neu ofalwyr pob plentyn dan 13 a gynhwysir yn yr adroddiad/lluniau atodedig ar gyfer eu cyhoeddi yn **Y Bigwn**, yn ogystal â chaniatâd pob unigolyn dros 13 a gynhwysirDiolch am eich cydweithrediad a'ch cefnogaeth gyda hyn




## Atebion Gorffennaf 2018

**Ar Draws :**
1. Mantell
5. Awyren
10. Tyfiant
11. Ymbarel
12. Marian
15. Ffwndro
16. Neithiwr
17. Agor
18. Brâd
19. Deiliad
20. Plâs
22. Stêc
25. Dyledus
27. Gogledd
28. Sadwrn
31. Arbrawf
32. Israddio
33. Rhandir
34. Negydu

**I Lawr :**
2. Allforio
3. Traean
4. Llety
5. Awyr
6. Ysbïwr
7. Efrydwr
8. Atomfa
9. Almond
13. Negesydd
14. Etholaeth
15. Ffwdanus
20. Pigiad
21. Algebra
23. Trwydded
24. Canmol
25. Deuawd
26. Sarrug
29. Ifor
30. Sian

# CROESAIR HYDREF 2018



**Ar Draws :**
1. Gwledd
5. Cymer ofal!
9. Math o ddrama
10. Cynnau, ee diddordeb
11. Cyfarchiad blynyddol (8,5)
13. Dosbarthu
15. Anghytûn
17. Gwlad y pyramidiau (2,4)
19. Symud o'i le
22. Magned sy'n gweithio gyda trydan
25. Ymadrodd
26. Mwstash
27. ....... a Thechnoleg, pwnc ysgol
28. Yn perthyn i iaith Lloegr

**I Lawr :**
1. Guinness, gwin y ....
2. Creadur ag wyth coes
3. Gŵyl .... Dinbych cyn bo hir
4. Perfedd a stumog mochyn
5. Llinell ar hyd ochr cae chwarae
6. Yn perthyn i frenin neu frenhines
7. Gŵyl . ......, yn Ffostrasol yn y 90au (1,6)
8. Pŵl
12. Ailadroddiad
14. Cyffur
16. Cyflwr delfrydol. Gardd, efallai? 18. Atyniadol
20. Person aeddfed (i fod!)
21. Canolfan gelfyddydau ym Mangor
23. Enw merch a chân gan Omega
24. Gwirfoddolwr yn un o wersylloedd Yr Urdd

sir ddinbych denbighshire County Council
Yn gweithio i
gryfhau'r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o'r iaith yn ein bywyd bob dydd.
Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

J Williams
BLAS DA
EICH CIGYDD LLEOL
124 Stryd y Dyffryn
Dinbych Ll16 3BS
01745 812585

## Cyfeillion yr Inffyrmari




Y Cyfeillion yn cyflwyno peiriant Doppler newydd i'r Inffyrmari, ac yn benodol i nyrsys y gymuned. Mae'r offer yn cael ei ddefnyddio i fesur llif y gwaed yn y coesau.




Aelodau'r Cyfeillion yn yr ardd tu cefn i'r ysbyty sydd newydd ei hadnewyddu.




# Rhentu Tŷ

Arferai fod yn fater hawdd gosod tŷ allan ond mae nifer o ddeddfau newydd wedi ei gwneud yn faich ar landlordiaid sy'n bwriadu neu yn gosod tai preswyl.

Yn dilyn Deddf Tai (Cymru) 2014 a dyfodiad sefydliad 'Rhentu Doeth Cymru' os ydych chi'n berchen ar eiddo rhent, yn rhentu, yn rheoli ac/neu yn byw mewn eiddo rhent, bydd y ddeddf hon yn eich effeithio. Mae Rhentu Doeth Cymru wedi mynd ati i godi ymwybyddiaeth ymysg landlordiaid, asiantaethau a thenantiaid ynghylch eu hawliau a'u cyfrifoldebau sy'n deillio o'r ddeddf ond mae diffyg gwybodaeth yn parhau.

Mae'n ofynnol i bob landlord preifat gofrestru ei hunan a'u heiddo hefo sefydliad Rhentu Doeth Cymru. Mae'n rhaid i unrhyw landlord sydd ag eiddo rhent yng Nghymru sy'n cael ei rentu ar denantiaeth sicr, tenantiaeth fyrddaliol sicr neu denantiaeth reoleiddiedig gael ei gofrestru.

Mae cofrestriad landlord yn para 5 mlynedd ac wedi hyn, mae'n rhaid ailgofrestru.

Os bydd landlord am reoli'r eiddo ei hun, rhaid iddo gael trwydded, dangos ei fod yn berson 'addas a phriodol' i gael trwydded, a dilyn hyfforddiant safonol yn llwyddiannus. Fel arall, gall landlord benodi asiant trwyddedig i reoli'r eiddo ar ei ran.

Yn ogystal â'r gofynion hyn, pan fydd landlord yn gosod tŷ ar rent fe fydd angen sicrhau cydymffurfiad â'r gofynion isod:

- Rhaid i bob landlord roi'r blaendal a dderbyniwyd gan denant i mewn i gynllun blaendal wedi ei gymeradwyo gan y Llywodraeth o fewn 30 diwrnod. Y tri chynllun a gymeradwyir gan y Llywodraeth yw'r Gwasanaeth Gwarchod Blaendal, "MyDeposits" a'r Cynllun Blaendal Tenantiaeth. Mae gwybodaeth am le y delir y blaendal a rheolau'r cynllun yn gorfod cael ei ddarparu i'r tenant.

- Rhaid darparu Tystysgrif Perfformiad Ynni bob tro y byddwch chi'n rhentu eich eiddo i denant newydd. Fe'i defnyddir i ddangos i denantiaid pa mor effeithlon yw'r eiddo o ran cadw ynni ayb.

- Mae'n ofynnol bod y cyfarpar trydanol mewn eiddo rhent yn ddiogel pan fydd tenantiaid yn symud i mewn ac yn cael ei gynnal mewn cyflwr diogel trwy gydol y denantiaeth. Yn ogystal, fe ddylai tŷ Amlbreswyliaeth (HMO) gael archwiliad trydanol bob pum mlynedd.

I gasglu, fe ddylai landlordiaid sicrhau cydymffurfiaeth gyda'r rheolau chod. Gall diffyg cydymffurfio olygu na all landlordiaid ddod a thenantiaeth i ben a hefyd gall olygu bbod landlordiaid yn cael dirwy neu gostau cyfreithiol yn eu herbyn. Cawsoch rybudd!

Lois Griffiths
Cyfreithwraig dan Hyfforddiant
Guthrie Jones & Jones

Gwefr heb Wifrau

# AMGUEDDFA RADIO

Dilynwch ni ar

| | |
|---|---|
| Dydd Llun, Hydref 8fed<br>11.00-15.00 | Diwrnod Agored i Amaturiaid Radio.<br>Teithiau o gwmpas yr Amgueddfa. |
| Dydd Mawrth, Hydref 9fed<br>11.00-15.00 | Teithiau o gwmpas yr Amgueddfa. |
| Dydd Mercher, Hydref 10fed<br>19.00-21.00 | Arddangosiad gan Angela a Mark<br>o 'Studio MADE'. |
| Dydd Iau, Hydref 11eg<br>18.00-19.00<br>19.00-20.00 | Noson Grefftau:<br>ar gyfer teuluoedd<br>ar gyfer oedolion |
| Dydd Gwener, Hydref 12fed<br>11.00-14.00 | Derbyniad i gyfeillion, cefnogwyr<br>a'r cyfryngau, trwy wahoddiad yn unig. |
| Dydd Sadwrn, Hydref 13eg<br>9.30-15.30 | Cwrs Cymraeg a dathliad. |





Ym mis Hydref eleni, rydym yn dathlu dengmlwyddiant Amgueddfa Gwefr Heb Wifrau a deng mlwyddiant ar hugain sefydlu Popeth Cymraeg. Bydd David Jones, sylfaenydd y sefydliadau hyn, yn cael ei gofio am ei gyfraniad i lwyddiant parhaus y ddau.
Nodir yr achlysur gyda chyfres o ddigwyddiadau i'r cyhoedd:

## DATHLU

Rydym hefyd yn dathlu sefydlu Clwb Amaturiaid Radio sy'n cyfarfod yn yr Amgueddfa bob dydd Llun, a'i gysylltu yn ddiweddar â Chymdeithas Radio Prydain Fawr. Cychwynnodd yr Amaturiaid ar Ebrill 28ain, 2014, ar ôl creu antena a chebl pwrpasol, a llwyddon nhw i gysylltu â 5 Amatur arall yn y DU ac 1 yn UDA. Ar Fehefin 13eg, rhoddwyd "Galwad" unigryw "GB0WIW" iddyn nhw gan OfCom a llwyddon nhw i gysylltu â 24 o Amaturiaid eraill ar y diwrnod hwnnw. Erbyn hyn mae gan y Clwb 11 o aelodau ac mae'r Alwad wedi cael ei chlywed dros Ewrop ac hyd yn oed mor bell â De America. Yn y llun, gwelir rhai o'r aelodau gyda John Pritchard, cynrychiolydd Gogledd Cymru Cymdeithas Radio Prdyain Fawr.




Mae Gwefr heb Wifrau bob tro yn awyddus i anfon siaradwyr at gymdeithasau, ysgolion a cholegau sy'n cysylltu â ni. Yn ddiweddar mae David, ein Curadur, wedi bod yn siarad â P3O (U3A) Rhuthun, Probus Rhuthun, Clwb Amaturiaid Radio Gogledd Cymru yn Llandudno, Clwb Amaturiaid Radio'r Ddraig yn Llanfair PG a Chymdeithas Hen Beiriannau Ynys Môn.
Trist yw cofnodi marwolaeth un o gefnogwyr ffyddlon yr Amgueddfa, Alun Rawson Williams. Dyn bonheddig, distaw a ddangosai ei wybodaeth a'i ddiddordeb yn y maes diwifr wrth arwain ymwelwyr o gwmpas yr Amgueddfa. Anfonwn ein cydymdeimladau at ei deulu.

Edrychwn ymlaen at ddigwyddiadau eraill yn yr hydref hefyd:
**Hydref 19eg**, Yr Athro Dyfrig Hughes yn sgwrsio am 'Meddyginiaethau Newydd a'r Gwasanaeth Iechyd Cenedlaethol' am 19.00.
**Tachwedd 30ain**, Noson y Curadur, David Crawford yn sgwrsio am "Thomas Edison: Y Dyn fu bron â dyfeisio Radio" am 19.00.
**Rhagfyr 1af, 10.00-12.00,** Bore Coffi Nadolig yn Eirianfa, ar y cyd â Mind Dyffryn Clwyd a Chymdeithas y Soroptimists.
Diolch i'r Athro Dyfrig Hughes am ei ddarlith ar "Effeithiolrwydd a Diogelwch Meddyginiaethau" yn gynt yn y flwyddyn. Bu'n sôn am hanes datblygiad meddyginiaethau o gyfnod yr Eifftiaid at heddiw a'r gwahanol fathau o feddyginiaethau sydd yn bodoli. Nododd yr angen i reoleiddio meddyginiaethau er mwyn sicrhau eu bod nhw o ansawdd uchel ac yn ddiogel ac yn effeithiol. Disgrifiodd y broses o ddatblygu meddyginiaethau newydd gan ddechrau trwy ganfod cemegyn, cynnal profion mewn gwirfoddolwyr iach ac wedyn cynnal profion ar gleifion, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch trwy gydol y broses.

# Grym y Wasg

Wyddwn i ddim tan yn ddiweddar fod yna gymaint o bobl yn darllen **Y Bigwn**, a bellach rydwi'n grediniwr mawr yng ngrym y gair printiedig. Yn y rhifyn diwethaf fe wnes i gyfeirio at y ffaith fy mod yn twchu neu ddechrau magu bol. Chefais i erioed yn fy mywyd ymateb cystal i unrhyw beth a roddais ar bapur. Derbyniais gan un wraig amlen yn cynnwys lastig i'm cynorthwyo yn f'argyfwng. Gofynnodd gŵr arall imi droi i un ochr fel y gallai weld fy mhroffil yn well.

"Na, does gen ti ddim byd i boeni amdano," oedd ei eiriau cysurlon. Ond ar y wê y gwelwyd tsunami o ymatebion– cwmni ar ôl cwmni yn cynnig imi wahanol ddulliau o golli pwysau.

Roedd ambell un yn cynnig deiat arbennig, ond yn ôl eraill does dim rhaid imi newid dim ar yr hyn rydwi'n fwyta. Yn wir, fe allwn i fwyta mwy o bethau melys.

Ambell un arall yn cynnig cynllun ffitrwydd arbennig ac yn y blaen ac yn y blaen, a phob un o'r cwmnïau caredig hyn â'i wreiddiau ymhell o Gymru fach.

Ond ai rhywun mewn rhannau pellennig o'r byd oedd wedi darllen am fy mhicil neu ai rhywun lleol caredig oedd wedi cysylltu ar fy rhan â'r cyfeillion hyn? Ysgwn i.

……………………………………………………

Ydach chi wedi cael eich dal gan anwadalrwydd y peiriant talu yn un o feysydd parcio'r dref? Os nad ydach chi rydach chi wedi bod yn ffodus. Mae gan y peiriant hwn y ddawn anhygoel o wrthod eich darn arian heb i chi sylwi. Roedd yna un gŵr gyda chyfarfod pwysig yn y dref a rhoddodd ddau ddarn o arian yn yn y peiriant gan fod y cyfarfod hwnnw am fod hyd deirawr o hyd. Pwysodd y botwm yn dalog er mwyn derbyn ei docyn, ac yna sylweddolodd fod un darn wedi syrthio drwy'r peiriant ac mai am awr yn unig roedd ei docyn yn para. Roedd argyfwng yn ei wynebu. Roedd ar fin rhoi'i ddarn hwn am yr eildro er mwyn cael amser ychwanegol pan ddywedodd cyfaill caredig wrtho, "Aros funud. Wneith hynna ddim gweithio."

"Pam?" " Wel, fe gei di docyn arall am union yr un adeg â hwnna sydd yn dy law di." "O," meddai yntau.

Yn ffodus, roedd gan y gŵr (fel pob cyn athro!) ddigon o arian yn ei boced i roi dau ddarn arian o'r newydd yn y peiriant. Y tro hwn cadwodd lygad barcud ar y peiriant er mwyn g'neud yn siwr ei fod yn bihafio'i hun. Gallai, fe allai fod wedi defnyddio'i ffôn er mwyn talu am docyn, yn ôl y cyfarwyddyd ar y mynegbost, ond wyddoch chi am rywun sydd yn g'neud hynny am barcio'i gar yn achlysurol? Ond newyddion braf a ddaeth i'm bro. Bellach mae arwydd ar y peiriant hwn yn nodi nad yw'n gweithio. Mae'n rhaid bod yna rywun sydd â dylanwad mewn mannau uchel wedi syrthio i'r fagl!

……………………………………………………

Fe fyddwn ni wedi hoffi enwi'r bobl y cyfeiriais atyn nhw uchod, ond y mae tynhau ar reolau data yn golygu na chaf wneud hynny heb dderbyn eu caniatâd nhw. Fiw imi awgrymu pwy ydyn nhw er eu bod nhw'n gwybod yn iawn at bwy rydwi'n cyfeirio. Mae papurau bro wedi derbyn cyngor cyfreithiol ynglŷn â hyn, a dyna pam y mae yna bennawd Rhybudd GDPR yn y rhifyn hwn o'r **Bigwn**.

GDPR – mae'r enw yn swnio fel cwmni o wlad dramor sydd am redeg trenau yng Nghymru -ydy'r cur pen mwyaf sydd erioed wedi wynebu papurau bro.

……………………………………………………

Yn ystod eleni fe wnaeth ambell un ddatgan yn eich papur bro eu hanfodlonrwydd gyda'r wasg gan awgrymu mai newyddion ychafi yn unig sydd ynddyn nhw, sôn am droseddau difrifol a chyffuriau aballu. Oes, mae yna newyddion brawychus yn y **Daily Post**, ond adlewyrchu'r gymdeithas rydan ni'n byw ynddi wna'r papur. Dyna ddagrau pethau. Chwarae teg mae'r papur yn cynnwys newyddion da yn yr adrannau wythnosol ar amaethyddiaeth, busnes ac addysg. Y gwendid mawr ydy' methiant llawer o'n hysgolion i ymateb i'r cyfle euraidd hwn.

Trueni nad ydyn nhw'n dilyn esiampl yr ysgolion bonedd. Maen nhw wedi'i gweld hi gan anfon pob math o newyddion am lwyddiannau eu disgyblion i'r adran hon. Y cŵyn pennaf sydd gen i yn erbyn papur dyddiol Gogledd Cymru ydy pam ar wyneb y ddaear maen nhw'n defnyddio bratiaith yn eu penawdau – ambo am ambiwlans, cops am heddlu ac yn y blaen. Oes rhaid iddyn nhw ostwng eu safonau i'r fath raddau.

**Stan Lyall**

Annwyl ddarllenwyr

## ARHOLIADAU GORSEDD Y BEIRDD

Gyda'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i sir Conwy y flwyddyn nesaf, beth am fynd ati dros fisoedd y gaeaf i baratoi ar gyfer sefyll arholiadau'r Orsedd, a thrwy hynny ddod yn aelod o'r Orsedd a chymryd rhan yn ei seremonïau a'i gorymdeithiau lliwgar?

Cynhelir yr arholiadau ar y Sadwrn olaf yn Ebrill a gallwch ddewis o blith nifer o feysydd i arbenigo ynddynt: Barddoniaeth, Cerddoriaeth, Iaith, a Rhyddiaith, ynghyd â meysydd arbennig i Delynorion, Datgeiniaid Cerdd Dant, ac Utganwyr.

Os hoffech fwy o fanylion am yr arholiadau a'r gwahanol feysydd astudio, cysylltwch â mi cyn gynted â phosib yn: Llys Cerdd, 80 Cae Gwyn, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1LL (***e-bost:*** wgwyn.lewis@btinternet.com), ac fe anfonaf gopi o lyfryn y ***Maes Astudiaeth*** ar gyfer 2018-19-20 atoch.

Beth am roi cynnig arni, felly, er mwyn i chi gael bod yn rhan o seremonïau Gorsedd y Beirdd yn yr Eisteddfod Genedlaethol pan ddaw i Lanrwst y flwyddyn nesaf?

Yr eiddoch yn gywir
Dr W Gwyn Lewis (Gwyn o Arfon)
Trefnydd Arholiadau Gorsedd y Beirdd

**EISTEDDFOD LLANDYRNOG 2018**

Dewch i ddathlu pen-blwydd yr Eisteddfod yn 60 oed!

(Cystadlaethau hyd at 25 oed)

**Neuadd y Pentref, Llandyrnog**

**Nos Wener, 9 Tachwedd 2018**

**am 5pm**

**Rhaglen/Manylion pellach gan Manon Dafydd: 07766 489310**

**manondafydd@msn.com**

**Croeso cynnes i bawb**

# Byw i eraill yw byw yn iawn



Capel y Brwcws

Ystyriwch faint o eglwysi a chapeli'r dref sydd eisoes wedi gorfod cau eu drysau, neu sydd ar fin gwneud. Mae'r rhestr yn frawychus ag ystyried mor boblogaidd oedd crefydd genhedlaeth neu ddwy yn ôl. Yn fy amser i, mae'r canlynol wedi, neu ar fin mynd - Capeli Bodawen, Seion, Y Bedyddwyr, Tower Hill, Y Brwcws (Annibynwyr), Salem a hefyd Eglwysi Dewi Sant a Sant Andreas. Wrth gwrs mae hanes pob achos wedi ei gofnodi'n ofalus fel ein bod yn gallu dychmygu'r dyddiau dedwydd rheini.

Tra'n chwilio am lyfr yn y stydi 'ma y noson o'r blaen, mi drewais ar gyfrol fach, 'Annibyniaeth yn Ninbych a'r Gymdogaeth' gyhoeddwyd gan Wasg Gee yn 1913. Yr awdur oedd un, William Roberts, ac mi benderfynais fynd ar ôl ei hanes - tasg addysgiadol a phleserus. Yn enedigol o'r Brwcws, (1841) treuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn Ninbych. Pan yn fachgen, aeth yn brentis o gysodydd yn Swyddfa'r Faner, ond tua ugain mlynedd cyn diwedd ei fywyd, dyrchafwyd ef yn is-olygydd y papur dan olygyddiaeth y Parch Robert Griffith, (taid Mrs Gwen Cawthray) a bu'r ddau yn cydweithio'n llwyddiannus am gyfnod lled faith. Treuliodd William Roberts yn agos i drigain mlynedd gyda Gwasg Gee ac yr oedd iddo barch mawr ymysg ei gydweithwyr, ac wrth gwrs, y pennaeth, Thomas Gee ei hunan.

O ganlyniad, yr oedd yn adnabyddus iawn drwy'r dref ac yn uchel ei barch gan ei holl gydnabod. Tystiolaeth pawb a'i hadwaenai oedd mai Cristion cywir a gonest ydoedd.

Ers pan yn fachgen ifanc, cymerodd ddiddordeb mewn crefydd a pharhaodd felly gydol ei oes. Yr oedd yn Annibynnwr selog ond nid cul, ac fel ysgrifennydd Capel Lôn Swan, daeth i gysylltiad â nifer fawr o weinidogion a swyddogion yr enwad hwnnw. Yr oedd ei atgofion am rai o'r hen bregethwyr yn hynod ddiddorol a gallai adrodd darnau helaeth o'r pregethau.

Ym Mawrth, 1872, ac yntau'n weddol ifanc, dewiswyd ef yn ddiacon yn y capel ac erbyn hyn yr oedd eisoes yn un o ymddiriedolwyr yr achos yno.

Am flynyddoedd bu'n llafurio yn y gangen eglwys fach yn y Brwcws, hyn yn golygu iddo gerdded yno ac yn ôl, weithiau ddwywaith bob Sul. Bu o wasanaeth amhrisiadwy yno fel swyddog ac athro Ysgol Sul lle yr arhosodd ei ddylanwad a'i esiampl yn y ddau gapel am oes. Yr oedd ganddo erioed gariad arbennig tuag at y capeli bychain ac ni fyddai dim yn ormod o drafferth iddo i'w helpu.

Cymerai ddiddordeb neilltuol yng ngweithgareddau ei enwad a sawl gwaith traddodai anerchiadau ar destunau crefyddol.

Yn Hydref 1912, ar gais ei gyd ddiaconiaid, ac er ei fod ar y pryd yn dioddef dan wendid iechyd, darllenodd bapur ar y testun, 'Hanes Annibyniaeth yn Ninbych', hyn ar achlysur dathliad dau gan mlwyddiant a hanner yr achos. Yn dilyn hyn, fe ymgymerodd â'r dasg o gyhoeddi'r llyfr a bu diddordeb mawr yn ffrwyth ei lafur.

Ers pan sefydlwyd y Gymdeithas Gynilo, neu 'Clwb y Town Hall', fel y gelwid hi, yn yr 1860au, bu William Roberts yn gwasanaethu fel yr ysgrifennydd. Yr oedd ei onestrwydd a'i gydwybodolrwydd yn ennyn ymddiriedaeth yr holl aelodau.


Er ei ymroddiad i'w gapel, i'w waith dyddiol, ac i lu o gymdeithasau, yn ystod blynyddoedd diwethaf ei fywyd, profodd gryn lawer o 'droeion chwerw yr yrfa'. Trawyd ei briod gan afiechyd mor gas fel nad oedd yn gallu mynd o gwmpas nac i weini ar ei theulu fel yr oedd wedi arfer â gwneud. Hefyd, dioddefodd ei ferch hynaf, Emma, afiechyd difrifol ac aeth hithau hefyd yn gaeth i'w gwely yn eu cartref, rhif 55, Allt y Bigwn. Serch yr holl broblemau hyn, ni chlywid William Roberts yn cwyno o gwbl. Ond, bu farw yn hollol dawel gan adael ei wraig a'i ferch mewn cyflwr truenus.

Efallai y bydd to hynaf o ddarllenwyr y Bigwn yn cofio'r ferch arall - Miss Gwladys Roberts - yn cadw siop esgidiau i ferched, hanner ffordd i fyny Stryd y Dyffryn ar y dde, fan ble mae siop 'Just Right'.

Yn sicr, mae ein dyled yn fawr i bob un o ffyddloniaid y gwahanol enwadau, sydd wedi croniclo mor ofalus hanesion ein capeli a'n heglwysi fel y bu eu hesiampl a'u tystiolaeth yn ysbrydoliaeth i'r dyfodol.

R M (Bobi) Owen

n.b. Diolch filoedd i'n cartwnydd galluog Huw am y lluniau.



Capel Lôn Swan

# Sioe Dinbych - Awst 2018

Llongyfarchiadau mawr i Awen Mair Ellis ar ennill cwpan am y mwyaf o bwyntiau yn yr adran o dan 7 oed am yr eildro ac i Bryn Lloyd Roberts (Taid Awen) am ennill 8 cwpan yr adran flodau a chynnyrch gardd unwaith eto. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn i deulu Roberts / Ellis gyda nifer fawr o'r teulu wedi cystadlu mewn amrywiol gystadlaethau ac wedi cael llwyddiant. Da iawn chi!





# Grŵp Cerdded Dinbych

Diolch i Ceri Ellis am y llun hwn o Grŵp Cerdded Dinbych yn Nolbelydr yn ddiweddar. Criw o ffrindiau ydyn nhw sy'n cerdded hwnt ac yma ar fore Mawrth, ac yn ymweld â llefydd diddorol lleol, megis Dolbelydr. Y Landmark Trust sydd berchen y "lle i enaid gael llonydd" hwn ar lan Afon Elwy, ger Trefnant. Wedi buddsoddiad enfawr a gwaith atgyweirio gofalus mae'r lle hanesyddol bwysig hwn ar osod fel lle gwyliau. Dyma gartref Henry Salesbury a ysgrifennodd ei Grammatica Britannica yma yn 1593, un o'r ymgeisiadau cyntaf i lunio gramadeg ffurfiol i'r Gymraeg.

Annwyl olygydd,

Ydi darllenwyr Y Bigwn yn hoff o gwis ac yn awyddus i ennill arian mawr?
Mae Cwmni Da yn cynhyrchu cwis newydd fydd yn cael ei ddarlledu ar S4C yn y flwyddyn newydd.
16 CYSTADLEUYDD! 2 SIED! 1 ENILLYDD A LOT FAWR O LWC!
Mae cydweithio a gwrthweithio yn sgiliau hanfodol yn y cwis yma. Bydd rhaid i'r cystadleuwyr fod yn ddigon hyderus i gamu ymlaen os oes pwnc maent yn arbenigo ynddo ond hefyd yn ddigon synhwyrol i gamu nôl os ydi aelod arall o'r tîm yn gwybod mwy am y pwnc dan sylw.
Byddwn yn ffilmio yng Nghaernarfon naill ai ym mis Rhagfyr 2018 neu Ionawr 2019.
Os oes gan rywun ddiddordeb mae croeso iddyn nhw gysylltu â
ni drosebost: rhannu@cwmnida.tv neu trwyffonio 012866 85300

Cadi Mai
cwmnida.tv
01286 685 300 *e:226*
Cwmni Da, Doc Fictoria, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SR

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol —

Annwyl olygydd,

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn galw am siaradwyr Cymraeg i wirfoddoli ar gynllun cenedlaethol newydd o'r enw 'Siarad'. Nod y cynllun yw i baru siaradwyr Cymraeg gyda dysgwyr er mwyn rhoi cyfle i ddysgwyr ymarfer yr iaith mewn awyrgylch anffurfiol a magu hyder.
Mae'r cynllun wedi cael ei beilota mewn pedair ardal wahanol yn gynharach eleni ac wedi bod yn llwyddiant.
Cynhaliwyd lansiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol ac erbyn hyn mae cyfle i ddysgwyr a siaradwyr Cymraeg ar draws Cymru i gymryd rhan.
Mae'r cynllun ar gyfer dysgwyr sy'n dysgu ar lefel Canolradd neu'n uwch y sector Dysgu Cymraeg. Bydd parau yn ymrwymo i gwrdd am oleiaf 10 awr i sgwrsio. Bydd y dysgwyr yn cael gwybodaeth am weithagreddau a chyfleon i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hardaloedd lleol hefyd.
Am fwy o wybodaeth, anfonwch e-bost os gwelwch yn dda at swyddfa@dysgucymraeg.cymru neu ewch i gofrestru ar dysgucymraeg.cymru/dysgu/siarad
Yn gywir iawn,
Hawys Roberts

**Cymdeithas Gorawl Dinbych a'r Cylch**

Arweinydd : **Beryl Lloyd Roberts** Cyfeilydd : **Tim Stuart**

# BENDITHION YR ŴYL

**Nos Wener, Rhagfyr 7fed, 2018** Yn Neuadd y Dref, Dinbych am 7.30 y.h.
gyda **ALED WYN DAVIES, OWAIN JOHN** a **HAF EVANS**

# Cofrestr Tai Fforddiadwy newydd i helpu pobl i ddod o hyd i gartref delfrydol

Mae darpar brynwyr a thenantiaid yn Sir Ddinbych yn cael eu hannog i ymuno â chofrestr tai fforddiadwy ar-lein newydd er mwyn gwella eu siawns o sicrhau eu cartref delfrydol.

Lansiwyd cofrestr Tai Teg mewn partneriaeth rhwng cymdeithasau tai'r rhanbarth, yr awdurdodau lleol, ac Awdurdod y Parc Cenedlaethol er mwyn symleiddio'r dull y mae pobl yn gwneud cais am gartref fforddiadwy.

Mae nifer o gynlluniau ar gael ar gyfer y rheini sydd mewn cyflogaeth ac sy'n ennill rhwng £16,000 a £45,000, gyda rhai opsiynau ar gyfer y rhai sy'n ennill hyd at £60,000.

Grŵp Cynefin sy'n arwain y prosiect. Yn ogystal â Grŵp Cynefin, mae partneriaid eraill gan gynnwys Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, a saith awdurdod lleol : Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Powys, Cyngor Wrecsam a Chyngor Sir Ynys Môn.

Y cymdeithasau tai eraill sy'n ymwneud â'r prosiect yw Cartrefi Cymunedol Gwynedd, Grŵp Tai Pennaf, Tai Gogledd Cymru, Tai Wales & West, a Cartrefi Conwy.

Mae cartref fforddiadwy yn eiddo a ddarperir am bris llai na gwerth y farchnad, naill ai i'w rentu neu brynu. Nid yw Tai Teg yn darparu tai cymdeithasol, a chynghorir pobl i barhau i ddefnyddio'r gofrestr tai cyngor perthnasol yn eu hardal.

# Celyn Cartwright o Ddinbych yn brwydro am Ysgoloriaeth Bryn Terfel



Bydd Celyn Cartwright, sy'n 19 oed ac o Ddinbych yn rhoi o'i gorau ar **nos Wener 12 o Hydref** pan fydd yn cystadlu am wobr fawreddog Ysgoloriaeth yr Urdd Bryn Terfel 2018. Noddir y wobr eleni gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant.

Cafodd Celyn ei dewis fel un o grŵp o chwech o'r cystadleuwyr mwyaf addawol yn Eisteddfod yr Urdd Brycheiniog a Maesyfed eleni. Byddant oll yn perfformio mewn cyngerdd arbennig yn Mhafiliwn Llandrindod am y fraint o ennill yr Ysgoloriaeth, sydd yn cynnwys gwobr ariannol o £4,000. **Darlledir y gystadleuaeth ar S4C ar nos Sadwrn 13 o Hydref**.

Merch o Ddyffryn Clwyd yw Celyn a dderbyniodd ei haddysg yn Ysgol Twm o'r Nant ac Ysgol Glan Clwyd cyn symud i Gaerdydd i astudio cwrs BA Perfformio Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Yn gystadleuydd brwd mae'n berfformiwr profiadol mewn sawl maes a bu'n llwyddiannus mewn cystadlaethau Sioe Gerdd, Gwerin, Cerdd Dant a Llefaru yn Eisteddfod yr Urdd, Genedlaethol a'r Ŵyl Gerdd Dant. Bu'n ffodus o gael perfformio gyda Chôr Glanaethwy ar lwyfan mawreddog Carneige Hall, Efrog Newydd i ddathlu pen-blwydd Syr Karl Jenkins yn 70 oed.

Nod y wobr a sefydlwyd yn 1999, yw meithrin talent rhai o berfformwyr ifanc gorau Cymru. Yn ogystal â derbyn arweiniad gan enwogion y byd perfformio, a chael eu henw yn gysylltiedig â'r canwr byd-enwog, Bryn Terfel, maent yn derbyn gwobr ariannol o £4,000 sydd i'w ddefnyddio er mwyn datblygu eu talent i'r dyfodol.

Dywedodd Bryn Terfel, "*Dyma gyfle euraid i rai o dalentau perfformio ifanc gorau Cymru i ddisgleirio ar lwyfan cenedlaethol. Fel un sy'n credu'n gryf mewn gwerth datblygu talent newydd, rydw i wrth fy modd yn gweld yr Ysgoloriaeth yn mynd o nerth i nerth gyda safon y perfformwyr yn gyson o uchel.*

*Pe bawn i'n gallu rhoi un gair o gyngor i'r cystadleuwyr eleni, faswn i'n eu hannog i fwynhau y profiad gymaint ag y gallan nhw. Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at weld y wledd sydd o'n blaenau eleni, a phob lwc i bawb, ewch amdani!*"

Rhian Roberts, Iwan Llewelyn Jones, Lowri Walton ac Owain Sion oedd ar y panel dewis fis Mehefin, ac ynghyd â beirniad newydd Gwawr Edwards, nhw hefyd fydd yn cael y dasg o ddewis yr enillydd ar y noson yn Llandrindod.

Mae'r Ysgoloriaeth yn lawer mwy na chystadleuaeth lwyfan yn unig. Yn dilyn cael eu dewis fis Mehefin, mae'r chwe chystadleuydd wedi bod yn gweithio gyda chyfarwyddwr cerdd a choreograffydd er mwyn datblygu a theilwra eu rhaglenni arbennig.

Y pump arall fydd yn cystadlu am yr Ysgoloriaeth eleni (oll yn y categori o dan 25 oed) fydd:-

**1 Glain Rhys o'r Bala**
**2 Emyr Lloyd Jones o Bontnewydd, Caernarfon**
**3 Epsie Thompson o Dafen, Llanelli**
**4 Elwyn Sion Williams o Gaerdydd**
**5 Jodi Bird o Benarth**

Mae tocynnau ar gyfer y gyngerdd ym Mhafiliwn Llandrindod ar gael am £10 o wefan yr Urdd neu drwy ffonio 0845 257 1639.






Bydd yr ail gyfrol yn y gyfres, sef Cerddi'r Sêr 2, yn cyrraedd y siopau yn fuan iawn ac yn cynnwys cyfraniadau newydd gan 30 o enwogion yn trafod eu hoff farddoniaeth. O gerddi hynafol i gerddi diweddar, yn hen ffefrynnau ac yn ganeuon poblogaidd, yn y gyfrol hon ceir amrywiaeth hynod o gerddi a chyfraniadau, oll wedi eu casglu gan Rhys Meirion mewn cyfrol gain. I gyd-fynd â phob ysgrif, ceir portread du a gwyn o bob cyfrannwr gan y ffotograffydd Iolo Penri. Y llyfr anrheg perffaith ar gyfer y Nadolig!

Ymysg y cyfranwyr mae Matthew Rhys yn trafod ei hoff gerdd, 'Mewn Dau Gae' gan Waldo Williams; Huw Stephens yn esbonio'r argraff a gafodd y gerdd 'Caerdydd' gan Emyr Lewis arno; Tara Bethan yn hel atgofion hyfryd o'i thad, Orig Williams a'i hoff gerdd yntau, 'Y Dyrfa' gan Cynan; Aled Hughes yn sôn am y lleoliad hudolus a ddisgrifir yn y gerdd 'Cwmorthin' gan Gwyn Thomas a Caryl Parry Jones yn disgrifio'r Nadolig yn ei chartref wrth iddi esbonio ei dewis hithau, sef 'Y Geni' gan I. D. Hooson. Ceir ysgrifau hefyd gan Dafydd Iwan, Alys Williams, Roy Noble, Catrin Finch, Richard Elis, Aeron Pughe, Siw Hughes, Mark Lewis Jones, Trystan Ellis- Morris, Dafydd Iwan, Lisa Gwilym, Rhodri Gomer, Betsan Powys, Rhodri Owen, Beti George, Huw Edwards, Brian Hughes, Sioned Terry, Daniel Lloyd, Ffion Dafis, Ed Holden, Cefin Roberts, Lleuwen Steffan, Heledd Cynwal ac Wil Tân.

Meddai Rhys Meirion: 'Fy ngobaith i yw y bydd gwaddol i'r ddwy gyfrol yma. Mae'r cyfranwyr yn arwyr ac yn destun boddhad mawr i nifer o bobl o bob oedran yn eu gwahanol feysydd, a rŵan, wrth gyfrannu i'r cyfrolau hyn, maent yn genhadon dros ddarllen barddoniaeth. Os bydd pobl yn troi at ddarllen barddoniaeth oherwydd eu diddordeb yn y cyfranwyr a'u poblogrwydd, yna gwych o beth!'.

Mae'r llyfr yn cael ei gyhoeddi ychydig ddiwrnodau cyn dathlu Diwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth ar y 4ydd o Hydref – dathliad sy'n hybu ac yn hyrwyddo darllen barddoniaeth ar hyd a lled y wlad. Dengys y gyfrol hon yn arbennig y pleser a gawn o ddarllen cerddi hen a newydd a sut yr ydym ni'r Cymry'n parhau i gael ein cyffwrdd mewn



gwahanol ffyrdd gan farddoniaeth o bob math.

Cynhelir lansiad Cerddi'r Sêr 2 yn Galeri, Caernarfon nos Wener y 5ed o Hydref am 7.30yh. Yn ymuno â Rhys Meirion, bydd rhai o gyfranwyr y gyfrol. Dewch yn llu!

GAIR AM Y GOLYGYDD:

Mae Rhys Meirion, sy'n byw ym Mhwllglas ger Rhuthun, yn mwynhau gyrfa ddisglair fel tenor gan deithio i bedwar ban byd. Mae hefyd yn ganwr preswyl Galeri Caernarfon. Mae'n gyflwynydd teledu adnabyddus, ac yn ddiweddar bu'n gyflwynydd ar Radio Cymru yn ogystal. Mae'n parhau i wneud llawer o waith yn codi arian i Ambiwlans Awyr Cymru, ac i 'Gronfa Elen'. Cyhoeddodd ei hunangofiant Stopio'r Byd Am Funud Fach gyda gwasg Y Lolfa yn 2014.

TEITL: Cerddi'r Sêr 2


GOLYGYDD: Rhys Meirion
FFOTOGRAFFYDD: Iolo Penri
DYLUNYDD: Tanwen Haf
CYHOEDDWR : Cyhoeddiadau Barddas

CLAWR: Clawr Caled

PRIS: £9.95

**Nos Lun, Hydref 8fed. am 7yh yn festri Capel y Fron**
Noson agoriadol Cymdeithas Ddiwylliadol Capel y Fron a'r Brwcws:
Noson yng nghwmni Aeryn Jones, Dinmael.
Croeso cynnes i bawb.
Pris rhaglen am y tymor: £3

Trefnwyr Angladdau Annibynnol
**R.W.Roberts a'i Fab**
Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos
Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele
Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com
Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com
www.rwrobertsandson.co.uk

**Glyn Evans Autoclinic**
**Atgyweirio Ceir**
Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA

*Atgyweirio car ar gyfer hawliadau yswiriant a gwaith preifat
* Ceir a 4x4 cwrteisi
* Gwasanaeth Cymraeg
01745 815141
repairs@evansautoclinic.com

**BROOKHOUSE MILL**
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Agored 7 diwrnod yr wythnos a thrwy'r dydd ar y Sul
Ffôn: 01745 813377

# Tîm Bowlio Merched Dinbych



Daeth y tymor Bowlio i ben i'r Merched yn ystod mis Medi. Curodd Merched Dinbych tîm Merched Bae Cinmael o 6 gêm i 4 yng ngêm olaf Cynghrair Merched Clwyd. Ar ôl chwarae 22 gêm Beti Jones oedd ar y brîg i Ferched Dinbych – wedi ennill 18 gêm a colli 4, a Mair Hughes oedd yn ail – wedi ennill 16 gêm a cholli 6. Hwn oedd y 10fed tro i Beti gyflawni'r gamp yma a hi enillodd cystadleuaeth y "Rose Bowl" i unigolion, gyda Jean Gwynn yn yr ail safle. Mwynhawyd 2 gystadleuaeth y gynghrair i ddod â'r tymor i ben. Bydd y tymor nesa'n cychwyn ym mis Ebrill 2019 ac mae croeso i chi'r merched ddod i ymuno â ni. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Mair Hughes (Capten) – rhif ffôn 01745 814662.

*Nerys Davies*

LLUN

Jean Gwynn, Mair Hughes (Capten) a Beti Jones

# Tymor Anodd i Ddinbych

Er gwaethaf y tywydd bendigedig, wnaeth yr haul ddim gwenu'n garedig ar gricedwyr y dref.Cael a chael fu hi yn hanes y tîm cyntaf wrth iddyn nhw frwydro i gadw'u safle yn Uwchgynghrair Gogledd Cymru. Yn wir, oni bai am ymdrechion Harrison Jones, y capten, fydden nhw ddim wedi gorffen yn y nawfed safle yn yr adran.

Sgoriodd H dros fil o rediadau - gan gynnwys dros gant ar ddau achlysur – a chipiodd dros 40 o wicedi. Cafwyd sawl gornest agos iawn gyda rhai canlyniadau yn mynd o blaid y tîm ac eraill o blaid y gwrthwynebwyr. Digwyddodd hyn yn arbennig yn y gemau ardderchog yn erbyn Llanelwy, yr hen elyn. Y rheswm pennaf am anawsterau'r tymor hwn, mae'n debyg, oedd i'r clwb ddilyn canllawiau'r gynghrair a pheidio â chael gwasanaeth chwaraewr o dymor.

Wnaeth nifer o'r clybiau eraill ddim dilyn y drefn hon. Cafodd yr ail dîm dymor caled iawn hefyd. Ar adegau doedd ganddyn nhw ddim tîm cyflawn. Does ryfedd felly iddyn nhw orffen yn y degfed safle yn eu hadran. O ran y timau iau, cafodd y tîm dan 9 oed dymor llewyrchus iawn gan ennill 6 o'r naw gêm a chwaraewyd tra roedd y tîm dan 13 yn drydydd yn eu hadran a'r tîm dan 11 yn wythfed.

**Stan Lyall**






# TEYRNGED TEGID PHILLIPS I MEURIG VOYLE

Heb os ac oni bai, un o'r cymeriadau mwyaf adnabyddus, carismataidd a lliwgar yr hen dref dros yr hanner canrif olaf. Mae sut gymaint allem ddweud am y Cymro pur o'i gorun i'w sawdl. Y broblem fwyaf oedd nid beth i'w gynnwys, ond beth i'w adael allan o'r cyflwyniad- sut i'w dorri lawr!

Mae'r berthynas rhwng y Voyles a'r Phillips wedi bod yn un agos am ddigon agos at ganrif o flynyddoedd. Yn yr 1930au, aeth Meurig a fy nhad, ar yr un pryd, i Queen Elizabeth Grammar, yng Nghaerfyrddin. Fe ddysgodd fy nhad Huw- (nid un o'i gampau mwyaf!!!); roedd y tri brawd Phillips yn Ysgol Uwchradd Dinbych yr un pryd â Rhian, Sharon and Huw; roedd Huw a finnau'n bâr o hanerwyr i Glwb Rygbi Dinbych; mae Rhian nawr yn byw yn Cwm Ffrwd mewn tŷ a adeiladwyd gan fy nghefnder ar dir y fferm lle ganwyd fy nhad. Ac yn y blaen!

Yr argraff go iawn o berson yw nid o anghenraid yr hyn a wnaeth yn ystod ei fywyd ond y dylanwad a gafodd ar eraill. Mewn nifer o ffyrdd, dyma ble roedd Meurig yn sefyll allan; hwyrach dim yn gorfforol, ond yn drosiadol, mi oedd yn ben ac ysgwydd yn uwch na'r dorf.

Wedi ei farwolaeth, mae nifer o sylwadau, naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar, wedi eu rhannu am Meurig- ac yn cadarnhau ei gyfraniad, ei bersonoliaeth a'i safle yn y gymuned. Dyma rhai ohonynt:

Mi oedd yn ddyn llawn hwyl a sbri- ac yn mwynhau jôc
Roedd yn gymeriad ar ben ei hun
Wedi ei gwrdd ni ellid ei anghofio
Roedd yn ŵr a fwynheuai fywyd
Dyn a oedd yn sefyll i fyny am yr hyn roedd yn credu ynddo
Gŵr tryw y gellid dibynnu arno
Gwas da i'w gymuned
Ni fu ac na fydd ei debyg

A dyma ddau roeddwn yn eu mwynhau'n arw:
Roedd yn llenwi pob stafell gyda'i bersonoliaeth a'i ffraethineb (Ceidiog Hughes)
Mae edafedd aur wedi cael ei dynnu o dapestri hanes Cymru fodern (John Myddleton Williams)



Meurig Voyle a Nigel Owens gyda rhai o staff Inffirmari Dinbych.

Sut mae un yn disgrifio Meurig? Gellir defnyddio nifer o ansoddeiriau ond i mi mae tri yn sefyll allan: Egwyddorol, ffyddlon a………. drygionus!

Egwyddorol- yn aml yn gysylltiedig gyda'i gyfraniad i'r gymuned leol. Fo oedd ysgrifennydd Pwyllgor Amddiffyn Cwm Gwendraeth Fach a enillodd frwydr hir, yn 1963, yn erbyn Corfforaeth Abertawe, a oedd am foddi rhan o'r dyffryn, gan gynnwys pentref Llangyndeyrn yn llwyr.

Roedd y gymuned leol erioed wedi bod yn bwysig yn ei fywyd. Fel dyn ifanc, roedd yn ysgrifennydd cyntaf Sioe Llanddarog. Symudodd i Ddinbych yn 1966, a byw am flwyddyn, ar ei ben ei hun yn swyddfa'r undeb! Fe symudodd ei deulu i'r Gogledd jyst cyn Nadolig 1967 a symud i Fryn Garth ar dop y dref. Roedd wrth ei fodd gyda'r ymdeimlad o gymuned ar y stâd, roedd wrth ei fodd gyda'r hiwmor a'r myrdd gymeriadau yn yr ardal.

Mi oedd yn ffyddlon i'w iaith a'i genedl- megis ei frwydr yn erbyn Banc Barclays gyda'u peiriant arian yn uniaith Saesneg; Cyfrifiad 2001 ble oedd yn mynnu nodi ei fod yn Gymro; mi oedd ar flaen y gad i sicrhau mai Clwb Rygbi Dinbych oedd enw swyddogol y Clwb.

Ond dwi'n siŵr eich bod i gyd wedi clywed nifer o'r storiâu amdano, oherwydd Meurig oedd Brenin y PR. Fe wyddai sut i hybu stori – roedd yn defnyddio 'spin' cyn i 'spin' gael ei ddyfeisio! Gwyddai Ceidiog Hughes, cyw newyddiadurwr gyda'r Free Press ar y pryd, pe cerddai Meurig i mewn i'r swyddfa na fyddai unrhyw broblem llenwi'r papur yr wythnos honno!

Nid cyd-ddigwyddiad oedd y ffaith bod Meurig yn gysylltiedig gyda storiâu hynod o ddiddorol ac od e.e. cael ei gamgymeryd fel Cadeirydd Meibion Glyndwr; hanes yr ysbïwyr Sofietaidd yng nghanolbarth Cymru, pan ddarganfyddodd ffermwr trawsyrrydd ar ei dir a hynny'n arwain at bedwar diplomat Rwsiaidd yn cael eu diarddel o'r wlad. Ni chafodd yr Undeb Amaethwyr erioed y fath gyhoeddusrwydd rhad ac am ddim. Fe wyddai Meurig sut i weithio'r system.

Mi oedd yn raconteur a diddanwr. Roedd yn mwynhau hwyl a sbri a jôc. Yn aml byddai'n dweud 'Dwi wedi cael sbri yn Ninbych'.

Nid oedd ganddo nifer o lythrennau academaidd ar ôl ei enw ond roedd yn ddyn hynod o ddeallus a dawnus. Gallai drafod amrywiaeth o bynciau, roedd ganddo beth wmbredd o ddiddordebau a bu hen drafod ar lawer ohonynt dros baned o de neu goffi yn nhop y dref. Roeddech yn gwybod pan oedd Meurig i fyny'r dre. Mi oedd ei gar wedi ei barcio yn y llefydd mwyaf od ac ar onglau hynod o ddiddorol! Wedi iddo ddechrau defnyddio ei gerbyd bach doedd cerdded ar balmentydd Stryd y Dyffryn, yn enwedig yn y glaw, ddim yn syniad doeth!

Mi oedd Meurig yn gallu cysylltu a thrafod gyda phawb. Roedd yr undeb yn ddoeth iawn yn ei ddefnyddio fel 'front of house' am 53 o flynyddoedd yn y Sioe Frenhinol. Yno yn ei het Banama, fo oedd y person cyntaf i gwrdd a chyfarch ymwelwyr gan greu argraff arbennig. Gallai siarad ag unrhywun a alwai heibio gan eu gwneud yn gartrefol – boed yn dywysog neu dlodyn, waeth beth fo'u hoedran, rhyw neu gefndir. Gallai unieithu â phawb.

Mi oedd ganddo feddylfryd positif. Mynnai nad oedd y ffyn neu'r gadair olwyn yn mynd i gyfyngu ar ei fywyd. Daliodd ati i fynychu'r Sioe Frenhinol, yr Eisteddfod, achlysuron teuluol ar hyd a lled Prydain – mewn priodas ddiweddar yn Norfolk fe hawliodd y llawr dawnsio yn ei gadair olwyn!!

Ffyddlondeb- roedd yn ffyddlon nid yn unig i'r undeb, gyda 60 mlynedd o wasanaeth ffyddlon ond i nifer o sefydliadau eraill, fel Y Sioe Frenhinol. Dim ond dwy fethodd o ers y 60au cynnar. Mi oedd yn ffyddlon i'w wreiddiau a'i filltir sgwâr gan enwi ei gartref yn Erw Myrddin ac yfory bydd yn dychwelyd i gael ei gladdu yn Llanddarog. Ei enw fel aelod o'r Orsedd oedd Meurig o Fyrddin ac mor falch oedd o i gael ei dderbyn yn Eisteddfod Yr Wyddgrug 1991. Ac wrth gwrs bu'n ffyddlon tu hwnt i'r Clwb Rygbi.

Y Clwb Rygbi- bu'n aelod o'r diwrnod cyntaf yn 1977, aelod am oes, cyn lywydd, cyn gadeirydd, gwerthwr tocynnau raffl heb ei ail, doedd neb yn gwrthod Meurig! Cefnogwr brwdfrydig. Doedd y dorf yn Ninbych erioed wedi bod y mwyaf swnllyd- heblaw am un unigolyn!! Mi oedd ei eiriau o anogaeth erioed yn glir, yn gryf a phob tro yn y Gymraeg.

Ar ddiwrnod gêm ryngwladol yn y Clwb, a gwylio'r gemau ar y sgrin fawr, byddai Meurig bob tro yn eistedd ar y gadair yng nghanol y rhes flaen. Rhaid cofio bod Meurig wedi gwasanaethu dros ei Fawrhydi a'i Wlad, a phan fyddai Cymru'n chwarae Lloegr un yn unig fyddai'n sefyll i God Save the Queen – unwaith eto Meurig yn ben ac ysgwydd uwch y dorf!! Ac yna hanner amser- amser bwyd! Brechdanau sglodion. Pawb yn ciwio – heblaw Meurig!! Roedd o'n cael ei weini! Ond doedd neb yn siwr os oedd wedi cael digon i'w fwyta gan fod rhan fwyaf o'r bwyd ar ei dei! Fel Cadeirydd y Clwb fe weithiodd er mwyn y Clwb nid er ei fwyn ei hun. Fe frwydrodd bob tro dros yr hyn oedd yn iawn ac orau i'r Clwb, er bod hynny weithiau'n erbyn y mwyafrif anwybodus!

Mi oedd yn egwyddorol, ond nid oedd yn gul; roedd yn gallu gweld safbwynt pobl eraill. Roedd yn caru'r hen ddyddiau ond nid oedd yn byw yn y gorffennol. Sylweddolai bod yr oes, ffordd o fyw a thechnoleg yn symud ymlaen ac mewn sawl ffordd roedd yntau'n addasu i'r newidiadau hyn.

Dros yr haf roedd y Clwb wed bod yn dathlu ei ben-blwydd yn ddeugain mlwydd oed mewn dwy brif ffordd; sgwennu llyfr a chinio mawr. A medrwch ddychmygu bod Meurig wedi bod yn ganolig i'r dathliadau.

**Y Llyfr.** Yn anghredadwy roedd Meurig wedi cadw erthyglau, lluniau ac adnoddau, am y Clwb ers y dechrau oll yn 1977 a'u cadw mewn ffeiliau arbennig. Ar adegau, roedd yn defnyddio system ffeilio unigryw! Ond, yn bendant, buasai'r llyfr wedi bod yn andros o wahanol heb ei gyfraniad aruthrol.

Mi oedd Meurig yn hynod o siomedig nad oedd yn gallu mynychu'r cinio dathlu mawr. Roedd yn fwy o siom gan ei fod, ar y noson, i dderbyn Tlws Gladys Roberts, am gyfraniad eithriadol i'r Clwb. Yn rhyfedd iawn, er na fynychodd y cinio, fe lwyddodd Meurig i gael y sylw mwyaf yn y wasg!! Ar y bore Sul ar ôl y cinio, gwirfoddolodd, Nigel Owens, y dyfarnwr byd enwog, a oedd wedi bod yn siaradwr gwadd yn y cinio, i alw heibio i weld Meurig yn yr Infirmari- am ryw bum munud bach! Dyna awr a hanner o adloniant gwych!! Dau ddifyrwr ar eu gorau. Roedd fel bod yn Wimbledon yn gwylio'r sgwrs yn bownsio yn ôl ac ymlaen, ar ystod o destunau ond yn bennaf crefydd, rygbi, amaethu a'r hen Sir Gâr. Roedd Meurig yn ei elfen!! A Nigel hefyd!

Gwnaeth gymaint o argraff ar Nigel fel iddo ysgrifennu amdano yn ei golofn yn y Western Mail. Dywedodd ei fod mor falch ei fod wedi cael treulio amser yn ei gwmni a rhannu atgofion am hanes ei bentref genedigol. Bydd yn trysori'r copi o'r llyfr a'r neges roddodd Meurig ynddo.

Bob tro roeddwn yn galw heibio i'r Infirmari, byddai Meurig yn nodi ei werthfawrogiad o'r nyrsys a oedd o dan arweiniad Rebecca, merch Roger a Laraine Bruce. Hyd yn oed yn yr ysbyty- ac yn gorwedd i lawr- roedd Meurig yn sefyll allan!! Tra roedd y cleifion eraill ynghanol ffrwythau a siocledi, roedd Meurig yn wahanol! Hyd yn oed tua'r diwedd roedd ganddo fo glustffonau, yn gwrando ar Radio Cymru wrth gwrs, copïau diweddar o'r Free Press a'r Bigwn, siswrn a thâp selo. Roedd yn dal i gasglu erthyglau am y clwb rygbi!!

Wrth gwrs, ei ffyddlondeb a'i gariad mwyaf oedd tuag at ei deulu. I Myfi, ei briod ffyddlon am 64 mlynedd, i Rhian, Sharon a Huw a'u teuluoedd- ac mor falch oedd o'u llwyddiant. Yn amlwg mae ein cydymdeimladau gyda'r teulu am eu colled enfawr ond mae Rhian, Sharon a Huw yn mynnu mai achlysur i ddathlu bywyd llawn, cyfoethog a hir Meurig oedd ei angladd fod.

I gloi, ni allaf wella ar sylwadau a theimladau Meurig ei hun. Ar ei garreg fedd lawr yn Llanddarog, bydd y geiriau (wedi ei baratoi gan Meurig)

'Ei ffydd, ei deulu a ffrindiau oedd yn bwysig- nid cyfoeth y byd'.

MEURIG VOYLE

Y cymeriad mwyaf adnabyddus, carismatig a lliwgar. Dylem fod yn ddiolchgar iddo ac yn ddiolchgar amdano.

Morgeisi
CARTREF
Mortgages
**Cyngor Morgais Di-Ffi**
Cynnyrch y Farchnad Gyfan ar gael
Gwasanaeth Dwyieithog
Symud Tŷ | Prynu | Ailforgeisio
Gwasanaeth Proffesiynol, Gonest a Chyfrinachol
Ffoniwch neu E-bostiwch Rhodri Sellers
0782 8824596 Rhodri@cartrefmortgages.co.uk

# CLWB RYGBI DINBYCH

Fe gynhaliwyd Cinio arbennig yng Ngwesty'r Oriel ar ddechrau mis Gorffennaf i ddathlu deugain mlynedd ers i'r Clwb gael ei sefydlu ym 1977, ac hefyd i lansio'r llyfr dwyieithog sy'n cofnodi hanes y Clwb, ar ac oddi ar y cae, yn dwyn y teitl "40 Mlynedd o Rygbi – Calon Ein Cymuned". Ond, heb amheuaeth, uchafbwynt y noson i bawb oedd presenoldeb Nigel Owens, y dyfarnwr byd-enwog, a'n diddanodd ni gyda nifer o hanesion ac oedd mor barod i sgwrsio efo pawb, llofnodi copïau o'r llyfr a cael tynnu ei lun.

Prif ffynhonell y llyfr oedd Mr Meurig Voyle, un o aelodau gwreiddiol y Clwb, ac hoffwn ddyfynu o'r llyfr:

*"Rydym yn ddiolchgar iawn i bawb, yn rhy niferus i'w crybwyll, sydd wedi rhannu gwybodaeth a hanesion. Fodd bynnag, byddai'n esgeulus ohonom ni i beidio cofnodi ein gwerthfawrogiad o Mr Meurig Voyle, Archifydd answyddogol y Clwb, sydd wedi cadw llyfr lloffion o doriadau papur newydd ac eitemau amrywiol eraill o ddyddiau cynta'r Clwb hyd heddiw. Profodd hyn i fod yn adnodd amhrisiadwy."*

Oherwydd hyn, a nifer o gyfraniadau eraill i'r Clwb o'r cychwyn cyntaf, cefais y fraint o gyflwyno Tlws Gladys Roberts am Wasanaeth Arbennig i Glwb Rygbi Dinbych i fab Meurig, Huw. Fe wnaethom hyn gan fod Meurig erbyn hyn yn Inffirmari Dinbych, ac fe gynigodd ein gŵr gwadd fynd i gyflwyno'r tlws iddo yn yr Inffirmari y diwrnod canlynol. A dyna ddigwyddodd, gyda Meurig a Nigel yn hel atgofion am hen gymeriadau a ffermydd Plwyf Llanddarog am awr a hanner. Pleser pur oedd i mi, Tegid a Jeff eistedd ar y cyrion yn gwrando ar ddau gymeriad mor arbennig yn sgwrsio fel hen ffrindiau. Amhrisiadwy!

Roedd Meurig wedi cael modd i fyw, ond yn anffodus, bu farw ychydig wythnosau ar ôl hyn, gan adael bwlch enfawr yng Nghlwb Rygbi Dinbych, y gymuned leol a Chymru gyfan. Cewch ddarllen mwy o deyrngedau iddo ar dudalen ……………..

*******************************

Am gychwyn i'r tymor 2018-19 ar Gaeau Les Phillips! Gydag eiliadau'n unig i'w chwarae, a'r Ail Dîm yn colli o 27-25 yn erbyn Tîm Cyntaf Porthaethwy, ildiodd yr ymwelwyr gic gosb o flaen y pyst, ond ddigon pell i ffwrdd i'r gic fod yn weddol anodd. Yn ffodus, penderfynodd un o chwaraewyr Porthaethwy ddadlau efo'r dyfarnwr, gyda'r canlyniad fod y gic wedi ei symud ddeg metr yn agosach i'r pyst. Llwyddodd Jac Jones gyda chic ola'r gêm, i sicrhau buddugoliaeth o 28-27.

Ychydig funudau ar ôl hyn ar y prif faes chwarae, roedd gêm y Tîm Cyntaf yn erbyn Y Bala yn dirwyn i ben, gyda'r tîm cartref ar y blaen o 26-20, gyda dau gais gan Tom Seddon. Gyda symudiad ola'r gêm, croesodd Y Bala am gais yn agos iawn i'r pyst i dorri calonnau chwaraewyr a chefnogwyr Dinbych. Ond roedd mwy o ddrama i ddod! Aeth y trosiad heibio'r pyst gan adael y tîm cartref yn fuddugol o 26-25. I goroni'r cyfan llwyddodd y ddau dîm i gael pwynt bonws ar ôl sgorio pedwar cais.

Roedd gwell i ddod y dydd Sadwrn canlynol i'r Ail Dîm yn Yr Wyddgrug, gan groesi am saith cais yn erbyn y tîm cartref, gyda'r Rhif 8, Aron Evans yn sgorio hatric mewn buddugoliaeth o 45-10.

Yn anffodus, fe ohiriwyd gêm y Tîm Cyntaf ym Mlaenau Ffestiniog ar yr un diwrnod oherwydd cyflwr gwlyb y cae, ond wythos yn ddiweddarach fe rannwyd 14 cais rhwng Dinbych a Llangefni, gyda'r tîm cartref yn sgorio naw ohonyn nhw! Croesodd y canolwr awdurdodol Tom Seddon am bedwar cais, gyda'r mewnwr Jordan Wynne yn croesi ddwywaith. Gyda Benllech yn ildio'r gêm gan iddynt fethu gael tîm i deithio i Ddinbych, aeth yr Ail Dîm drwodd i Ail Rownd Y Bowlen heb chwarae gêm!

Teithiodd Yr Ieuenctid i Wrecsam am eu gêm gyntaf o'r tymor a cholli o 12-6. Cafwyd gwell hwyl arni yn eu gêm gartref gyntaf, yn curo'r Wyddgrug o 36-13 gyda'r capten a Rhif 8 Joseff Powell yn rhagori.

**********************************

Diolch i Joe Simpson am yrru'r daflen amser isod sy'n dangos sesiynau ymarfer yr Adran Mini/Iau.

**"Teeny Taggers" - Plant 3 i 6oed Clwb Rygbi Dinbych 16:30-17:30 pob nos Wener**

**Dan 7 oed - Cae ymarfer Clwb Rygbi Dinbych 18::00 - 19:00 pob nos Wener**

**Dan 8 oed - Cae ymarfer Clwb Rygbi Dinbych 18:00 - 19:00 pob nos Wener**

**Dan 10 oed- Cae ymarfer Clwb Rygbi Dinbych 18:30 - 19:30 pob nos Wener**

**Dan 11 oed - Cae ymarfer Clwb Rygbi Dinbych 09:30 - 11:00 pob bore dydd Sadwrn**

**Dan 12 (Cysylltwch â'r Clwb)**

**Dan 13 oed - Cae ymarfer Clwb Rygbi Dinbych 18:00 - 19:30 pob dydd Mercher**

**Dan 14 oed - Cae ymarfer Clwb Rygbi Dinbych 18:00 - 19:30 pob dydd Iau**

*John Davies*

siop siocled
01745 814864 dinbych
RWAN YN DERBYN ARCHEBION:
PARTION PLANT, NOSWEITHIAU MWYTHAU I'R ARDDEGAU/OEDOLION A BUSNESAU
* Partion Mwythau o £99
* Partion Siocled o £125
* Nosweithiau i Oedolion a Busnesau o £150
I sicrhau dyddiad i'ch parti ffoniwch 01745 814864
neu ebostiwch mark@denbighchocolateshop.com
Stryd y Dyffryn, Dinbych
www.denbighchocolateshop.com
YN FALCH I GEFNOGI Y BIGWN

SIOP CLWYD
33 STRYD FAWR
DINBYCH
01745 813431
Llyfrau,Cardiau
Casetiau
Crynoddisgiau
a Chrefftau

# Newyddion CPD Dinbych

Daw tymor newydd yn CPD Dinbych â thîm rheoli newydd a charfan newydd i Central Park.

Mae Dewi Llion Jones a Matty Jones wedi eu penodi fel rheolwyr ar y cyd o'r Tîm Cyntaf, gyda Pete Lloyd fel eu cynorthwyydd. Mae'r tri yn lleol i'r ardal - gyda Dewi wedi byw yn Ninbych drwy gydol ei fywyd, a Matty wedi ei fagu ym Mhrion. Ym Mhandy Tudur mae Pete Lloyd yn byw, ac er bod y tri yn eithaf ifanc yn y maes rheolaethol o bêl-droed, mae ganddynt gyfoeth o brofiadau rhyngddynt. Bu Dewi yn hyfforddi'r Tîm Cyntaf ers Hydref 2016 a chyn hynny, roedd yn rheolwr o Academi CPD Y Bala am bedair blynedd. Mae Matty wedi bod yn hyfforddwr ers sawl blwyddyn, gyda'i swydd ddiweddaraf fel rheolwr ar y cyd o CPD Y Rhyl. Mae Dewi a Matty ar hyn o bryd wrthi'n cwblhau eu bathodynnau hyfforddi Trwyddedau A drwy'r FAW. Ers blynyddoedd, mae Pete wedi bod yn rhan o bêl-droed lleol, gyda phrofiadau o hyfforddi a rheoli Llandyrnog Utd, Llanrwst ac yn fwy diweddar, Croesoswallt.

Gyda'r mwyafrif o'r tîm cyntaf y llynedd yn dilyn y cyn-reolwr Eddie Maurice-Jones i CPD Y Rhyl, mae'r tîm rheolaethol newydd wedi arwyddo sawl chwaraewr lleol gan gynnwys Mark Roberts, Miles Todd, Sam Jones, Stuart Vernon, Tom Jones a Jake Walker. Mae Rhys Llwyd, Sam Cartwright a Sam Tate wedi symud i garfan y Tîm Cyntaf o'r Ail Dîm ac mae'r chwaraewr ifanc a thalentog, Sïon Jones, hefyd wedi ymuno o Academi'r Rhyl.

Yn ychwanegol i'r chwaraewyr lleol, mae Tony Davies, arweinydd naturiol sydd wedi bod yn rhan o'r Clwb ddwywaith yn y gorffennol, wedi ei wneud yn gapten. Rhai chwaraewyr eraill sydd wedi ymuno yw Sam Downey o'r Rhyl, Ross Weaver o Brestatyn, Scott McHarrie o Academi Wrecsam, y gôl-geidwad Craig Vernon o'r Bala a Bailey Jackson o Airbus.

Wedi canlyniadau calonogol i'r gemau cyfeillgar, dechrau digon siomedig a gafwyd i'r tymor i'r garfan newydd wrth iddynt golli o 3-1 gartref i Gresford, ble gwelwyd Mark Roberts a Bailey Jackson yn cael eu hel oddi ar y cae gyda chardiau coch. Dilynwyd hyn gyda cholled o 3-1 yn erbyn Y Fflint, yna threchiad arall o 2-1 yn yr ornest leol yn erbyn Rhuthun.

Gêm gartref oedd hi nesaf yn erbyn Bangor, a ddaeth yn ail yn Uwch Gynghrair Cymru'r tymor diwethaf, dim ond iddynt gael eu darostwng am beidio â chyrraedd gofynion FAW i chwarae ar y lefel hwnnw. Llwyddodd Dinbych i gael y blaenwr Alfons Fosu-Mensah ar fenthyciad o Landudno ar ddiwrnod y gêm. Fe gafodd y blaenwr effaith uniongyrchol ar y tîm ac mewn gêm wefreiddiol, fe enillodd Dinbych eu gêm gyntaf o'r tymor o 3-2, gyda goliau gan Sam Jones, Mark Roberts a Rhys Llwyd.

Ers hynny, mae'r tîm wedi colli yn erbyn Conwy Borough ac wedi cael gêm gyfartal yn erbyn Penrhyn-coch yng nghanolbarth Cymru.

Yn y cyfamser, roedd gêm Gwpan y Gynghrair i'w chwarae oddi cartref yn erbyn Rhyl, a oedd yn sicr am fod yn ornest ddiddorol yn dilyn y symudiadau cyn yr haf. Roedd hi'n chwip o gêm gyda Dinbych yn trechu'r Rhyl o 2-1 gyda goliau gan Sam Jones a Sam Downey. Yn bendant, roedd hi'n noson arbennig i bawb sy'n gysylltiedig â'r Clwb. Y wobr felly yw gêm gartref yn y rownd nesaf yn erbyn Airbus, ddydd Sadwrn, Hydref 6ed am 2:30pm yn Central Park.

Mae'r Ail Dîm, dan reolaeth Kev Roberts, wedi cael dechrau llawer gwell i'r tymor wedi iddynt ennill bob gêm hyd yma, sef Llandyrnog o 2-0, Nantlle Vale 5-1 a Chonwy Borough 2-1. Mae Rhys Cooper, Andy Thomas, Jacob Parry a Stuart Vernon i gyd wedi sgorio wrth i'r tîm gyrraedd brig y gynghrair. Ers hynny, yn anffodus, fe gollon nhw yn erbyn tîm cryf o Borthmadog o 3-1.

Mae Tîm Development Dinbych hefyd wedi cael rheolwyr newydd ac ifanc gyda Dan Whitfield ac Alex Douglas wrth y llyw. Dechrau anodd hyd yma maen nhw wedi ei gael i'r tymor, wrth iddyn nhw ennill eu pwynt cyntaf o'r tymor mewn gêm gyfartal arbennig o 6-6 yn erbyn Ail Dîm Llanfairfechan. Ar hyn o bryd, maent yn edrych at ennill eu gêm gyntaf o'r tymor.

**Nos Wener, Tachwedd 9fed.**
**am 7.30yh**
**yng Nglwb Rygbi Dinbych**

**Cwis gyda Stan ac Erfyl**

Trefnir y noson gan Bwyllgor Apel Tref Dinbych Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd 2020.


Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy, Dinbych 01745 812333




Stad Ddiwydiannol Gaerwen 01248 421900



Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

MALDWYN WILLIAMS
Ffordd y Rhyl, Dinbych



Ffôn:01745 812542
DARNAU I BOB MATH O GEIR
STÔRS: 813840



GORSAF MOT
GOLCHFA CEIR
GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4
Ffôn:01745 814647
maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

# Diwrnod Shwmae Su'mae, 15fed o Hydref, 2018

Annwyl Gyfeillion
Dyma gais i hysbysebu Diwrnod Shwmae Su'mae yn eich papur bro eto eleni (gan ddefnyddio'r testun isod, a lluniau atodedig/a'u gwelir ar ein gwefan www.shwmae.cymru).

Eleni bydd Diwrnod Shwmae Sumae yn digwydd am y chweched tro ar Hydref 15fed. Cofiwch achub ar y cyfle i ddathlu'r iaith Gymraeg, yn eich ysgol, coleg, gweithle, ysbyty, caffi, bar, tafarn, canolfan cymunedol, neu siop leol.

Dechreuodd Diwrnod Shwmae Sumae 6 mlynedd yn ôl gyda dros 100 o ddigwyddiadau yn cael eu cynnal ac wedi eu hysbrydoli gan ymgyrchoedd tebyg i hybu ieithoedd brodorol Gwlad y Basg a Llydaw.

Heddiw mae'r achlysur wedi ei gofleidio gan bobl ymhob rhan o Gymru, yn ddysgwyr, y di-gymraeg a siaradwyr Cymraeg. Erbyn hyn mae cannoedd o ddigwyddiadau ac achlysuron yn cael eu cynnal o Fôn i Fynwy ar Hydref 15fed neu yn ystod yr wythnos honno. Mae nifer o sefydliadau ac ysgolion yn cynnal digwyddiadau o gwmpas y Diwrnod er mwyn hyrwyddo'r iaith, annog eraill i'w defnyddio ac fel ffordd o bontio rhwng cymunedau Cymraeg a di-gymraeg.

Mae mudiadau sy'n aelodau o Ddathlu'r Gymraeg yn annog pawb i gymryd rhan yn y dathliadau eleni, ac os ydych chi angen cyngor ar beth i'w wneud cysylltwch gydag un o'r isod, maent yn siŵr o'ch rhoi ar ben y ffordd:

CAER, Cronfa Glyndŵr, Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru, CYDAG, Cyfeillion y Ddaear, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Cymdeithas Alawon Gwerin, Cymdeithas Bob Owen, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Cymdeithas y Cymod, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Merched y Wawr, Mentrau Iaith Cymru, Mudiad Meithrin, RhAG, UAC, UCAC, UMCA, UMCB, Urdd Gobaith Cymru


Cewch fanylion a syniadau ar www.shwmae.org

Dilynwch ni ar Twitter @shwmaesumae ac ar Facebook: Diwrnod Shwmae Sumae




"Cefnogwch Hysbysebwyr Y Bigwn"


TE YN Y GRUG
Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk
01745 816576

J. H. & B. JONES
CIGYDD TEULU

Gwerthu PYSGOD hefyd
* Cig cartref
* Cig o ffermydd lleol
* Cig i'r rhewgell
92 Stryd y Dyffryn,
Dinbych
01745 812132

Hysbyseb Gwasg Helygain



Tîm Cyntaf Dinbych, Awst 2018



Tîm Denbigh Development, Awst 2018



Ail Dîm Dinbych, Awst 2018



Tom Seddon yn croesi am gais yn erbyn Llangefni

OS OES ANGEN
COPI PRINT BRAS
O'R BIGWN ARNOCH
CYSYLLTWCH EFO BEDWYR
AR 814497

***GOLYGYDD Tachwedd: Dyfrig Berry***

Cyhoeddwyd gan: Gymdeithas y Bigwn Cysodwyd gan Hywel Evans ac Argraffwyd gan Wasg Helygain